

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 8 Hydref 2012

CYNLLUN GWELLA DRAFFT (ADOLYGIAD PERFFORMIAD 2011/12)

Cyflwynwyd y Cynllun Gwella drafft (Adolygiad Perfformiad) 2011/12 er sylw'r Pwyllgor.

Dygodd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) sylw'r aelodau at y ffaith mai dogfen ddrafft yw'r Cynllun Gwella a bod gwaith yn parhau arni. Ar ôl ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, bydd y Cynllun drafft yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac yna i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu. Dywedodd y Swyddog fod rhaid i'r Awdurdod gynhyrchu Cynllun Gwella yn seiliedig ar ei werthusiad o berfformiad y flwyddyn flaenorol. Mae'r Cynllun drafft fel y'i cyflwynwyd yn edrych yn ôl ar 2011/12 ac yn rhoi asesiad o gynnydd yr Awdurdod yn erbyn y nodau a'r targedau a osodwyd ganddo ar gyfer y flwyddyn honno gan gynnwys dadansoddiad manwl o gynnydd yn erbyn y pum Blaenoriaeth Strategol a'r camau a gymerwyd sydd wedi cyfrannu at y broses honno. Mae'r Cynllun hefyd yn cyfeirio at y pedwar amcan gwella ac yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion hynny. Rhoddwyd pwyslais mawr yn ystod 2011/12 ar wella trefniadau llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod a thrwy broses o gynllunio ar y cyd, nododd y Comisiynwyr, y Pwyllgor Gwaith Cysgodol a Chadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a Sgriwtini ynghyd â'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol, 10 o themâu allweddol i dracio'r gwelliant o ran llywodraethu corfforaethol yn y Cyngor. Nodir y rhain yn y Cynllun. Mae rhan o'r Cynllun yn ymwneud yn arbennig â pherfformiad yr Awdurdod yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol ac, yn benodol, y Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) ; y Data Gwella Gwasanaethau (DGG) a'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC).

Rhoes y Rheolwr Rhaglenni a Chynllunio Busnes gyflwyniad gweledol i'r Pwyllgor ynghylch perfformiad yr Awdurdod yn derbyn DP Cenedlaethol a dygodd sylw at y patrymau cyffredinol yr oedd y data'n eu hamlygu; a hyn mewn cymhariaeth gydag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ac ar lefel Cyfadran/Gwasanaeth. Dygodd sylw hefyd at ganran y DP a oedd wedi gwella yn ystod 2011/12 ynghyd â'r rheiny a oedd yn dangos dirywiad mewn perfformiad.

Ystyriodd yr Aelodau'r Cynllun Gwella drafft yn fanwl ac yn ystod y drafodaeth arno, codwyd y materion a ganlyn –

- Mae'n hanfodol bod staff yn holl adrannau'r Cyngor yn ymwybodol o ac yn gwbl gyfarwydd gyda DP eu gwasanaethau aac yn gwbl gyfarwydd â nhw a bod y wybodaeth hon yn cael ei bwydo wedyn i'r broses gwerthuso staff. Pwysleisiwyd bod angen i'r Awdurdod sicrhau bod yr holl Adrannau'n gweithredu ac yn cynnal proses werthuso ar gyfer eu staff a bod y broses hon yn alinio gyda'r trefniadau cynllunio busnes a rheoli perfformiad a'u monitro'n gyson wedyn i sicrhau cydymffurfiaeth lawn.
- Bod angen sgritineiddio'r DP, yn enwedig y rheiny sy'n dirywio, o ran eu heffaith ar y gwasanaeth dan sylw ac ar drigolion Ynys Môn. Awgrymwyd y gellir paratoi rhyw fath o adroddiad eithriad ac y gallai fod yn ddefnyddiol o ran casglu at ei gilydd yr holl DP sy'n hanfodol o ran eu heffaith ac y dylid o'r herwydd ganolbwyntio arnynt.
- Dibyniaeth DP ar ei gilydd a'r ffaith y gall gwendidau mewn un maes gwasanaeth effeithio ar wasanaethau eraill. Dywedwyd mai'r her oedd sicrhau perfformiad sy'n gyson dda ar draws amrediad o wasanaethau. Awgrymwyd y dylid edrych ar y modd y dosberthir adnoddau ar draws gwasanaethau er mwyn sefydlu a yw'r rheiny y mae perfformiad yn uchel o ran DP yn cael mwy o adnoddau nag sydd raid ac ai'r rheiny mewn gwirionedd yw'r meysydd y mae'r Awdurdod yn dymuno neu eisiau rhagori ynddynt. Dylai perfformiad gymryd i ystyriaeth anghenion Ynys Môn ynghyd â chwrdd â thargedau cenedlaethol.
- Dwyn sylw at berfformiad y DP mewn perthynas â'r isod –
 - Canran y prif ffyrdd (A), ffyrdd (B) nad ydynt yn brif ffyrdd a ffyrdd (C) nad ydynt yn brif ffyrdd sydd, yn gyffredinol, mewn cyflwr gwael
 - Nifer y dyddiau calendr a gymerir i brosesu Grant Cyfleusterau i'r Anabl
- Mewn perthynas ag integreiddio gwasanaeth Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd, dygwyd sylw at bwysigrwydd cynnal llais cryf ar gyfer Ynys Môn yn y maes gwasanaeth hwn.

Penderfynwyd –

- **Derbyn y Cynllun Gwella a nodi ei gynnwys.**
- **Bod rhestr o'r holl DP hynny sy'n dirywio yn cael ei llunio ar gyfer pob pwyllgor sgrwtini penodol ynghyd â'u heffaith ar y maes gwasanaeth unigol dan sylw; ar lywodraethu corfforaethol ac ar ddinasyddion Ynys Môn yn cael eu hasesu fel y gall pob pwyllgor sgrwtini ystyried/argymhell camau gweithredu priodol mewn perthynas â'r DP.**

GWEITHREDU: Y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) ac/neu'r Rheolwr Cynllunio Busnes i baratoi rhestr ar gyfer pob pwyllgor sgrwtini yn rhestru'r holl DP sy'n dirywio ynghyd ag asesiadau o'u heffaith ar bob maes gwasanaeth unigol; ar ddinasyddion Ynys Môn ac ar lywodraethu corfforaethol yn yr Awdurdod.

DRAFT



Cyngor Sir Ynys Mon

CYNLLUN GWELLA
(Adolygiad
Perfformiad)
2011/12

DOGFEN DRAFFT

Gair gan yr Arweinydd...

Croeso i Gynllun Gwella'r Cyngor Sir (Adolygiad Perfformiad) ar gyfer 2011/12. Mae'r Cynllun yn edrych yn ôl ac yn pwysu a mesur sut rydym wedi perfformio yn erbyn y blaenoriaethau a'r targedau a nodwyd yng Nghynllun Busnes Corfforaethol 2011/12.

Mae'n deg dweud i 2011/12 fod yn flwyddyn o drawsnewid i'r Cyngor. Yn ôl ym Mawrth 2011, penododd Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol a Chymunedau 5 o Gomisiynwyr i fod yn gyfrifol am lywodraethu'r Cyngor a rhoi sylw i hen bryderon. Ers hynny, gwnaed cynnydd sylweddol i roi sylw i'r materion hyn gan gynnwys agweddau ar atebolrwydd, apwyntio Uwch Dîm Arweinyddiaeth newydd a gweithio mewn partneriaeth. Mae'r broses o ddwyn yr ymyrraeth i ben bellach wedi cychwyn ac fe roddwyd pwerau yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ers dechrau'r mis. Bu adferiad y Cyngor yn ymdrech ar y cyd ac rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth ac arweiniad y Comisiynwyr, Aelodau Etholedig a staff. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau fod yr arferiad yn gynaliadwy.

Ar y cyfan, mae'r Cynllun hwn yn dangos bod gwasanaethau a pherfformiad y Cyngor yn gwella o gymharu â'r data a gyhoeddwyd ar gyfer 2010/11. Yn wir, mae rhai o'n gwasanaethau yn y chwarterel uchaf o'u meincnodi yn erbyn awdurdodau eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhai meysydd y mae'n rhaid i ni eu gwella. Mae'r adroddiad hwn yn sail i ni allu rhoi sylw i'r meysydd i'w gwella yn y dyfodol a chanolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau o safon i ddinasyddion a chymunedau Ynys Môn.

Bryan Owen
Arweinydd y Cyngor

Hydref 2012

Datganiad o gyfrifoldeb

Mae'r Adolygiad hwn wedi ei gynhyrchu ar y sail mai Cyngor Sir Ynys Môn sy'n gyfrifol am baratoi'r Adolygiad, am yr wybodaeth a'r asesiadau sydd ynddo a'r amcangyfrifon sydd wrth wraidd y rheiny.

Mae'r Awdurdod yn fodlon fod yr wybodaeth a'r asesiadau sydd wedi eu cynnwys yn yr Adolygiad, o ran bob ystyriaeth sylweddol, yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred.

Gellir cynhyrchu'r ddogfen hon ar gais mewn Braille, print bras, ar dâp neu ar ddisg – gweler tudalen 73 am fanylion cyswllt.


Crynodeb Gweithredol	Tudalen 5
Cynllun ar Gyfer Newid	Tudalen 10
) Perfformiad Ariannol –	Tudalen 11
Sicrhau Cydraddoldeb a Chynladwyedd	Tudalen 12
Blaenoriaethau Strategol	Tudalen 13
▪ Diogelu a Datblygu Economi'r Ynys	Tudalen15
▪ Adeiladu a chefnogi Cymunedau Cynaliadwy	Tudalen 24
▪ Hyrwyddo Cymunedau Iach, Diogel a Theg	Tudalen 42
▪ Gwasanaethau Effeithlon a Fforddiadwy	Tudalen 54
• Codi proffil economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y Cyngor a'r ynys	Tudalen 64
Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol	Tudalen 70


CRYNODEB GWEITHREDOL


Roedd 2011/12 yn flwyddyn drawsnewidiol ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn, gyda Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo Comisiynwyr i redeg y Cyngor er mwyn gwella llywodraethu corfforaethol effeithiol a threfniadau gweithio. Arweiniodd hyn at benodi Prif Weithredwr newydd a Tîm Uwch Arweinyddiaeth ynghyd a chryfhau gwasanaethau cefnogol corfforaethol .

Tra bod y newidiadau hyn wedi bod yn digwydd, mae'r gwasanaethau wedi bod yn ceisio gweithredu mewn modd effeithiol ac effeithlon a phosib ar amser ac amodau economaidd anodd.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu cynnydd yn erbyn pob un o'n blaenoriaethau strategol ac amcanion gwelliant newydd. Mae cynnydd yn seiliedig ar wybodaeth busnes i ddarparu gradd **Coch** / **Ambr** / **Gwyrdd**. Mae'r camau gweithredu hyn hefyd yn dod i'n sylw yr heriau sylweddol a'r risgiau sy'n ein wynebu yn 2012/13

Coch  – methu cyrraedd y targed gwreiddiol

Amber  – methu o ychydig neu y tu allan i reolaeth y Cyngor

Gwyrdd  - Cyrraedd targed gwreiddiol

Gall ein blaenoriaethau strategol gael eu crynhoi fel a ganlyn -

- Diogelu a datblygu economi'r Ynys

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud i ddatblygu economi'r Ynys gyda phwyslais arbennig yn cael ei roi ar Ynys Fenter sy'n dwyn ynghyd rhaglen Ynni Ynys / Cynllunio Rheoli Cyrchfan a Thwf Busnes / Adfywio. Mae hyn yn cysoni ei hun gyda parth Menter Ynni dynodedig roddwyd i'r Ynys gan Llywodraeth Cymru

Mae Partneriaeth a Chynllun Rheoli Cyrchfan rhwng y sectorau preifat / cyhoeddus wedi ei sefydlu i ddarparu arweiniad a chyfeiriad i agenda dwristiaeth yr ynys. Mae Twristiaeth yn datblygu ar gyflymder gyda chynnydd o fwy na £ 30 miliwn referniw a gynhyrchir gan ymwelwyr i'r Ynys yn ystod 2011. Rydym wedi cwblhau gwaith isadeiledd ym Mhorth Dafarch (Cam 2), Pier Biwmares a Gorsaf Hwyllo Afon Menai fel rhan o welliannau i atyniadau a chyfleusterau ymwelwyr ar yr ynys.

Rydym wedi bod yn llwyddiannus wrth ddarparu prosiect Anweithgarwch Economaidd Môn Menai, a brofodd i fod yn gatalydd effeithiol ar gyfer gweithio ar y cyd/ partneriaeth. Ceir tystiolaeth o hyn drwy ymyriadau llwyddiannus sy'n meithrin cysylltiadau gwaith rhwng darparwyr, cyfnewid gwybodaeth gwell ac sydd wedi creu nifer sylweddol o gyfleoedd swyddi a hyfforddiant. Mae 3 prosiectau a ariennir gan Ewrop wedi cael eu cadarnhau gan y Cyngor, yn ogystal â buddsoddi £159,551 i'r economi lleol i gefnogi a chynorthwyo busnesau newydd a phresennol drwy'r Gronfa Fuddsoddi Leol.

Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, mae heriau penodol yn parhau, a'r mwyaf nodedig o'r rhain yw effaith penderfyniad RWE N Power ac E-ONs i beidio â bwrw ymlaen â chynlluniau adeiladu niwclear newydd yn y Wylfa. Fodd bynnag, ac gan fod y Wylfa yn parhau i fod yn un o'r lleoliadau gorau i adeiladu gorsafod niwclear newydd yn y DU, mae Cyngor Sir Ynys Môn, drwy'r Rhaglen Ynys Ynni, yn parhau'n gwbl ymrwymedig i sicrhau buddsoddiad newydd mewn cydweithrediad agos â Llywodraethau'r DU a Chymru.

- Adeiladu a chefnogi cymunedau cynaliadwy

Unwaith eto, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran adeiladu a chefnogi cymunedau cynaliadwy drwy gadarnhau ymrwymadau gan bartneriaid i weinyddu'r cynllun Cymorth Prynu Mon (darparwyd 11 uned llety drwy'r cynllun 'Homebuy' a 5 plot hunan-adeiladu). Rydym hefyd wedi dod a 31 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, ac wedi symleiddio'r cynllun prydlesu preifat i sicrhau ei hyfywedd fel dewis arall addas i Wely a Brecwast.

Rydym wedi annog 677 o bobl ifanc ar Ynys Môn i ddilyn ystod lawn o achrediaid hamdden / dysgu drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid ac wedi darparu rhaglenni addysgol i 3951 o bobl ifanc i ddiwallu anghenion sydd yn adlewyrchu materion ffordd o fyw pobl ifanc gyda. Rydym wedi cynyddu mentrau busnes i fusnes gyda swyddogion gweithredol Llongau Mordaith er mwyn hyrwyddo Ynys Môn a Gogledd Cymru i gynulleidfa ehangach a rhagori ar ein cynnydd o 3% mewn ymweliadau twristiaeth.

Rydym hefyd wedi datblygu menter Siopau Gwag yng Nghaergybi gyda'r nod o drawsnewid yr adeiladau gwag i ddarparu unedau gwerthui gartrefu pobl leol dalentog sydd yn awyddus i agor busnes yn y dref. Mae'r cynllun hwn yn arwain at greu 7 busnes newydd yn cyflogi 12 o staff rhan a llawn amser.

- Hyrwyddo Cymunedau Iach, Diogel a Theg

O fewn y flaenoriaeth hon, rydym fel Cyngor wedi darparu rhaglenni gweithgareddau ar draws 5 canolfan i ddarparu ar gyfer oedrannau 0-18 sydd yn cynnwys - nofio, gymnasteg, pêl-droed, criced, tennis, pêl-fasged a gweithgareddau eraill awyr agored. Rydym hefyd yn darparu rhaglenni Antur Awyr Agored ar gyfer pobl ifanc i wneud defnydd o'r amgylchedd naturiol a sefydlwyd 1 clwb newydd, trefnu 36 digwyddiad cyfranogi, cefnogi 11 o glybiau yn eu hymdrechion, adnabod 57 o wirfoddolwyr a chynnal 1 Gwyl Awyr Agored.

Er bod hyn yn cael ei weld fel cynnydd, rydym hefyd yn cydnabod bod ymweliadau â chanolfannau hamdden i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn ffactor pwysig fel dangosydd o iechyd o fewn poblogaeth. Rydym yn nodi bod ein perfformiad mewn ymweliadau â chanolfannau hamdden wedi gostwng yn 2010 / 11 i lefel sydd yn is na 2009/10 ac yn gorwedd o fewn y chwarter canol isaf o o ran cymhariaeth cenedlaethol.

Mae nifer cynyddol mewn defnyddwyr y ddarpariaeth Teleofal, darpariaeth sy'n ei gwneud yn bosibl i bobl fyw bywyd annibynnol ac urddasol yn eu cartrefi eu hunain trwy gyfuno offer uwch-dechnoleg a chyfathrebu â gwasanaethau gofal, yn gam cadarnhaol i gadw ein cymunedau'n iach a diogel, ond mae methu a chyrraedd rhai o dargedau eraill Teleofal yn codi rhywfaint o bryder ar gyfer y dyfodol.

- Gwasanaethau fforddiadwy ac effeithiol



Yn ystod 2011/12 rydym wedi datblygu a chyflwyno Fframwaith Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol (FCRPC). Roedd hyn yn cynnwys trefniant diwygiedig rheoli perfformiad chwarterol oedd yn aleinio'n well ar adrodd ar faterion ariannol, yn ogystal ag adolygiadau gwasanaeth blynyddol i gynorthwyo'r broses o nodi cynnydd a risgiau i'r dyfodol .

Mae'r fframwaith yn nodi risg/,rheoli rhaglen/ prosiect fel elfennau allweddol ar gyfer gwella llywodraethu corfforaethol. Fodd bynnag, bydd angen iddynt gael eu diwygio yn ystod 2012/13 er mwyn parhau i wella yn y dyfodol.

Mae'r Tîm Uwch Arweinyddiaeth wedi cael ei gryfhau ac ymdrech sylweddol wedi ei wneud er mwyn sicrhau cyhoeddi ein datganiad cyfrifon blynyddol o fewn yr amserlen statudol. Mae cynllun corfforaethol tair blynedd newydd sydd yn cynnwys o amcanion gwella hefyd wedi cael ei fabwysiadu er sicrhau cyfeiriad strategol ar gyfer y Cyngor ac sy'n galluogi trigolion Ynys Môn i ddal y Cyngor i gyfrif.

- Codi proffil economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y Cyngor a'r Ynys







Yn wreiddiol roedd y flaenoriaeth strategol uchod yn datgan .. "Gwella proffil ac enw da y Cyngor a'r Ynys" (fel y nodir yn ein Cynllun Busnes Corfforaethol ar gyfer 2011/12) ond newidwyd hyn gan y Comisiynwyr.

Gwnaed cynnydd yn ystod y flwyddyn wrth i'r Cyngor ddechrau ail-ymgysylltu â'r etholwyr – gan gynnwys sesiynau galw heibio i'r cyhoedd o dan y teitl. "Ein Ynys, Ein Cyngor, Eich Cyfraniad" a chynnal Arolwg Trigolion o dros 1,000 o bobl i sicrhau ein bod yn yn canolbwyntio adnoddau ar y blaenoriaethau sy'n bwysig i bobl Ynys Môn.

Yn ogystal â chyfathrebu cyffredinol drwy'r wasg leol a'r cyfryngau a chyhoeddi ein papur cymunedol ddwywaith y flwyddyn (Newyddion Mon), mae'r Cyngor wedi cychwyn hefyd ar nifer o fentrau eraill lle mae proffil y Cyngor a'r Ynys yn cael ei godi a chyfathrebu â'r cyhoedd yn cael ei wella drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol - ee Facebook, Twitter a Gorsaf Radio Gymunedolol, Mon FM

Gall cynnydd yn erbyn ein **Hamcanion Gwella**, sydd yn cael ei fonitro trwy gydol y flwyddyn ar sail chwarterol gan ddefnyddio Ffynnon ein system rheoli perfformiad, ei grynhoi fel a ganlyn -


Amcanion Gwella a CAG	Sylwadau
Gweithredu yn fwy Effeithiol 	mabwysiadwyd Fframwaith Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol newydd. Trefniadau monitro perfformiad ac ariannol wedi'w halinio. Cynnydd yn erbyn rheoli Prosiect a Risg fel y bwriadwyd, gyda mireinio pellach ei angen yn ystod 2012/13
Cyflawni yn erbyn Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy 	Er cyflawnwyd y rhan fwyaf o'r arbedion yn unol â'r rhagamcaniad, roedd peth diffyg.
Gwireddu ein Cytundeb Canlyniadau 	Yn seiliedig ar ein gwaith hunan-asesu a trafodaethau cychwynnol gyda Llywodraeth Cymru ar ddiwedd Blwyddyn 2 mae'r Cyngor yn credu ein bod unwaith eto yn agos iawn at y ffin rhwng 75% a 100% o'r dyraniad grant. Er ein bod wedi cyflawni'r mwyafrif helaeth o'n canlyniadau a thargedau ar draws y rhan fwyaf o'r Cytundebau Canlyniadau , mae rhai diffygion mewn lleiafrif fel y nodwyd yn ein hunan-asesiad (tud 60).
Adnewyddu Democrataidd 	Mae'n prosiect adnewyddu democrataidd wedi'w effeithio gan benderfyniad Llywodraeth Cymru I gomisiynu adolygiad o'r ffiniau etholiadol gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru. O ganlyniad mae'r prosiect hwn yn parhau

I gloi felly, ac er i 2011/12 fod yn flwyddyn o newid gyda chraffu dwys ar drefniadau gweithio a chynnydd y Cyngor. Fodd bynnag, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud yn erbyn pob un o'r blaenoriaethau strategol ac amcanion gwella. Yr her, fodd bynnag, yw parhau i gynnal y gwelliannau hyn i'r dyfodol.


Dangosyddion Perfformiad a Thueddiadau

Mae'r darlun cyffredinol o ran ein dangosyddion perfformiad (DP) - cynnwys Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs), Setiau Data Gwella Gwasanaeth (SIDs) a Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) - yn eithaf cadarnhaol yn 2011/12. Mae'r duedd (Tabl 1) yn dangos bod 57% o'n holl Ddangosyddion Perfformiad wedi gwella yn 2011/12 gyda 11% yn parhau unchained gyda 30% yn dirywio. O ran sefyllfa chwarterel (Tabl 2) 39% o'n Dangosyddion Perfformiad yn y chwarterel uchaf, 40% yn y chwarterel canol a 21% yn y chwarterel isaf. Gellir gweld felly bod hyn yn dangos gwelliant sylweddol rhwng 2010/11 a 2011/12 o ran y cynnydd yn nifer y DP yn y chwarterel uchaf a gostyngiad tebyg yn y nifer o ddangosyddion perfformiad yn y chwarterel isaf

Tabl 1 – Holl DP



Tabl 2 – Holl DP



Cyflwyniad – Cynllun ar Gyfer Newid

Yn ein Cynllun Busnes Corfforaethol ar gyfer 2011/12 nodwyd gennym bod Ynys Môn, Cymru a'r Deyrnas Unedig mewn cyfnod o newid oedd yn heriol iawn. Nodwyd hefyd bod adnoddau'n lleihau'n sylweddol ar draws y sector cyhoeddus ac o fewn Cyngor Sir Ynys Môn.

Nodwyd mai yn 2011/2012 y daeth Mesur 2009 Llywodraeth Leol (Cymru) i rym gan roi mwy o bwyslais ar weithio gyda phartneriaid lleol a mwy o ffocws ar gysylltu ein blaenoriaethau â dyheadau ein dinasyddion drwy'r broses gynllunio cymunedol – cyfeiriwyd hefyd at ddatblygiad Strategaeth Gymunedol "Gwella Bywyd Môn" (2005 - 2015) sy'n nodi gweledigaeth ar gyfer yr ynys ac amcanion tymor hir ar gyfer yr ardal. Nodwyd ymhellach gennym, tra bo'r strategaeth hon, a dogfennau allweddol eraill, yn darparu'r cyd-destun ar gyfer nifer o'n rhaglenni gwaith. Byddai'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol, ac arno sefydliadau partner allweddol, yn goruchwyllo'r broses o baratoi Cynllun Cymunedol diwygiedig sy'n adlewyrchu anghenion yr ynys hyd at 2025.

Ar Fawrth 18^{fed}, 2011 penododd y Gweinidog Dros Lywodraeth Leol a Chymunedau dîm o Gomisiynwyr i redeg y Cyngor. Mae'r Comisiynwyr wedi darparu diweddariadau rheolaidd ar y cynnydd a wnaed i'r Gweinidog er gwireddu gwelliannau mewn llywodraethu corfforaethol sydd yn angenrheidiol i gyflawni adferiad cynaliadwy a hirdymor ym mherfformiad y Cyngor.

Amlygwyd ymhellach yr angen i Gyngor Sir Ynys Môn arbed oddeutu £11m dros y tair blynedd nesaf, ac ailadroddwyd ein hymrwymiad i gynnal a datblygu gwasanaethau er budd pobl Môn. Mae angen i'r Cyngor, fel sefydliadau mawr eraill, gofleidio newid er mwyn cwrdd â heriau a darparu gwasanaethau o safon uchel yn y dyfodol.

Roedd ein Cynllun Busnes Corfforaethol 2011/12 oedd yn edrych ymlaen yn nodi'r meysydd hynny ar gyfer newid a gwella y ceisiasom eu gweithredu dros y 12 mis diwethaf. Mae'r Cynllun Gwella hwn sy'n edrych yn ôl yn adolygu ein perfformiad yn erbyn y nodau a'r targedau y gosodasom ar ein cyfer drwy -

1. Ein Blaenoriaethau Strategol a'n
2. Hamcanion Gwella

Mae canlyniad hyn yn cyflawni ein dyletswydd i arddangos gwelliant parhaus fel y nodwyd gan Fesur Llywodraeth Leol 2009 (Adran 2, 15(2)).

Perfformiad Ariannol 2011/12

Cyllideb refeniw y Cyngor ar gyfer 2011/12 oedd blwyddyn gyntaf y rhaglen doriadau sylweddol, a arweiniodd o'r dirywiad economaidd rhyngwladol. Gweithredwyd gostyngiadau o £3.4m mewn cyllidebau, ynghyd â £1.9m o dwf.

Gosodwyd hyn yn erbyn gostyngiad mewn cyllid allanol (grantiau Llywodraeth Cymru'n bennaf) o £1.2m ynghyd â chynnydd o 3.7% yn y Dreth Gyngor. Fel rhan o'r gyllideb, neilltuwyd £2.5m o falansau i gwrdd â chost y diswyddiadau oedd angen n gwrdd a gostyngiadau yn y gyllideb.

Cydnabuwyd y byddai hon yn gyllideb anodd i'w chyflawni ac, fel rhan o'r broses o osod y gyllideb, hysbyswyd yr aelodau, o ran y cynnig i wneud arbedion y byddai:-

- hanner yn hynod debygol o gael eu cyflawni;
- Dylai trydydd rhan gael eu cyflawni;
- Ac fod chweched rhan yn y cyfnod cynllunio

Yn adolygiad cyllideb y trydydd chwarter, rhagwelwyd gorwariant o £0.7m ar gyllidebau net. Ond lleddfwyd hyn gan ostyngiad rhagamcanol yng nghost diswyddiadau, fyddai'n lleihau'r galw ar falansau cyffredinol £0.7m. Achoswyd y gorwariant gan oediadau yn y rhaglen arbedion, gostyngiadau rhagamcanol mewn incwm Treth Gyngor a chostau'n codi o ymyrraeth; fe'u gwrthbyswyd gan arbedion rhagamcanol mewn gwasanaethau ynghyd â llog cyllidebau corfforaethol ac ad-dalu dyled.

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd dirywiad o £0.2m yn y galw ar falansau cyffredinol, yn bennaf o ganlyniad i gostau pellach o ddiswyddiadau. Fodd bynnag, roedd y cyfraniad o falansau yn £0.6 yn llai nag a gyllidebwyd yn wreiddiol. Yr alldro terfynol ar gyfer y flwyddyn yw gostyngiad o £0.9m mewn Balansau Cyffredinol i £5.8m ynghyd â chynnydd o £1.2m mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i £12.9m.

Er y gwnaed arbedion ar draws sawl gwasanaeth, cafwyd gorwariant yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant o ganlyniad i alw cynyddol a phroblemau o ran argaeledd lleoliadau addas. Cafwyd gorwariant ar y gost o integreiddio disgyblion a chanddynt anghenion dysgu arbennig mewn ysgolion prif lif. Lleihawyd y gorwariant hwn yn rhannol gan arbedion mewn cyllidebau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg eraill. Mae incwm Treth Gyngor yn parhau i fod yn llai na hynny y cyllidebwyd ar ei gyfer, fel y mae amodau economaidd yn tynhau. Cyflawnodd y gyllideb £0.4m neu 1.7% yn llai na'r disgwyl.

Yn ystod y flwyddyn, roedd gwariant net yr ysgolion wedi gostwng eu cronfeydd wrth gefn (fel cyfanswm) i £1.25m, sef gostyngiad o £0.9m. Gostyngiad tebyg i hynny a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol. Cyfyngir y defnydd y gellir ei wneud o'r cronfeydd wrth gefn hyn i'r ysgolion unigol ac mae gwahaniaeth rhwng sefyllfaoedd yr ysgolion. Ar ddiwedd y flwyddyn

ariannol roedd gan bedair ysgol ar ddeg ddiffyg ariannol (naw ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol) ac mae sawl ysgol arall yn disgwyl diffygion mewn blynyddoedd i ddod.

Yn ystod y flwyddyn, gwariodd y Cyngor £21.6m ar ei brosiectau cyfalaf. Cwblhawyd adeilad yr archifau newydd fel y cynlluniwyd yn 2011/12. Ni chwblhawyd unrhyw brosiectau mawr eraill yn ystod y flwyddyn. Yr unig brosiect mawr i ddechrau oedd adleoliad Ysgol y Bont. O ran y rhaglen welliannau ar gyfer mân-ddaliadaethau, sydd bellach wedi cwblhau ei hail flwyddyn, gwelwyd lefel sylweddol uwch o wariant fel yr oedd yn datblygu.

Roedd y prosiectau Cydgyfeiriant wedi cael eu traed danynt yn ystod y flwyddyn flaenorol ac maent wedi parhau ar yr un lefel eleni. Roedd gwariant ar dai cyngor ychydig yn uwch na hynny yn 2010/11 fel yr oedd rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn parhau i fynd yn ei blaen.

Yr asesiad gorau o gadernid ariannol yw ystyried i ba raddau y mae'r Awdurdod wedi darparu ar gyfer rhwymedigaethau hysbys ac ystyried hefyd faint o gronfeydd wrth gefn sydd ar gael fel diogelwch yn erbyn risgiau eraill. Mae'r Cyngor wedi darparu ar gyfer rhwymedigaethau hysbys ac wedi sefydlu cronfeydd wrth gefn pryd bynnag y mae hynny'n ofyn statudol, pan fo cynlluniau'r Cyngor wedi clustnodi hynny neu pan fo'n ddoeth i bwrpas diogelu yn erbyn risg neu ansicrwydd. Wrth osod y gyllideb am y flwyddyn, y bwriad gwreiddiol oedd y byddai £2.5m yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol i i gyllido cost diswyddiadau a chostau eraill i gyflawni arbedion refeniw parhaol. Rhoddwyd cyfrif am tua £1m o hyn yn 2010-11 yn unol â gofynion cyfrifo. Defnyddiwyd £0.3m arall yn sgil penderfyniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn, sy'n rhoi arbediad o £1.2m. Bydd rhan o'r gwarged hwn ar gael yn 2012-13 a defnyddiwyd y rhan sy'n weddill i gyllido'r arbedion nas cyflawnwyd ynghyd â'r gorwariant ar gyllidebau corfforaethol yn 2011/12.

Felly mae cadernid ariannol yr Awdurdod yn ddigonol er gwaethaf y dirywiad yng nghyflwr cyllid cyhoeddus. Cyflawnwyd y rhan fwyaf o'r arbedion disgwyliedig yn ystod y flwyddyn er y bu oediadau mewn rhai prosiectau corfforaethol o ganlyniad i newidiadau yn rheolaeth y sefydliad.

Gwnaeth sawl gwasanaeth arbedion cyn cael gwybod am y pwysau ar gyllidebau yn 2012-13 ond cydnabyddir y bydd cyllidebau yn hyd yn oed tynnach mewn blynyddoedd i ddod a bydd yn anoddach i gyflawni toriadau. Mae'r rhagolygon ar gyfer gwariant cyhoeddus yn dal i fod yn bur dywyll ac yn annhebygol o wella yn y tymor byr.

Sicrhau cydraddoldeb a chynaliadwyedd

Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i gydraddoldeb drwy:-

- ddarpariaeth gwasanaethau
- ei rôl fel cyflogwr pwysig
- ddileu gwahaniaethu annheg ac anghyfreithlon o fewn ein holl bolisiâu, gweithdrefnau ac arferion.

Ym mhob un o chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Heddlu Gogledd Cymru, mae swyddogion cydraddoldeb wedi rhannu arferion da ers blynyddoedd lawer. Ers cyflwyno Deddf Cydraddoldeb 2010, rydym wedi bod yn cydweithio i symud yr agenda gydraddoldeb yn ei blaen ac i fynd i'r afael â materion anghydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

Yn ystod 2011/12, cynhaliodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Gogledd Cymru weithgareddau ar y cyd y mae pob partner wedi cytuno iddynt. Y rhain yw:

1. Gostwng anghydraddoldebau o ran **lechyd**
2. Gostwng canlyniadau anghyfartal o ran **Addysg** er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion
3. Gostwng anghydraddoldebau o ran **Gwaith a Chyflog**
4. Gostwng anghydraddoldebau o ran **Diogelwch Personol**
5. Gostwng anghydraddoldebau o ran **Cynrychioli a Llais y Bobl**
6. Gostwng anghydraddoldebau o ran cael **Mynediad** i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Ceir cyfres o feysydd gweithredu i gyd-fynd â phob amcan gyda gwahanol bartneriaid wedi cytuno i gyfrannu at wahanol feysydd gweithredu. Eglurwn sut y mae y Cyngor wedi dewis cyfrannu tuag at y cydamcanion hyn yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a cheir manylion am sut y datblygwyd ein cydamcanion yn ein dogfennau partneriaeth.

- Cydamcanion Cydraddoldeb – prosiect cydweithredol rhwng sefydliadau sector cyhoeddus Gogledd Cymru
- Dogfen Gefndir ac Ymchwil

Gellir gweld ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-16 ynghyd â'r dogfennau partneriaeth uchod yn:
www.anglesey.gov.uk/equalityplan

Blaenoriaethau Strategol

Yn ein Cynllun Busnes Corfforaethol ar gyfer 2011/12, amlinellwyd gennym ein gwerthoedd a'n credoau a nodwyd ein nod cyffredinol a'n blaenoriaethau strategol ar gyfer y flwyddyn i ddod:

Nod: HYRWYDDO A DIOGELU BUDDIANNAU'R YNYS, EI DINASYDDION A'I CHYMUNEDAU DRWY GYDWEITHIO YN LLEOL, YN RHANBARTHOL, YN GENEDLAETHOL AC YN RHYNGWLADOL

Blaenoriaethau Strategol:

- Gwarchod a datblygu economi'r ynys
- Datblygu a chefnogi cymunedau cynaliadwy
- Hyrwyddo cymunedau iach, diogel a theg
- Gwasanaethau effeithlon a fforddiadwy
- Codi proffil economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y Cyngor a'r ynys

Amcanion Gwella:

- Gweithredu'n fwy fel busnes
- Cyflawni yn erbyn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy
- Gwireddu ein Cytundeb Canlyniadau
- Adnewyddiad Democrataidd

Mae'r dadansoddiad a ganlyn yn edrych yn fanwl ar perfformiad cyffredinol y Cyngor o ran cyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau strategol a'n amcanion gwella. Bydd y dadansoddiad yn edrych ar yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud, yn ogystal ag edrych ar y targedau a'r mesurau sy'n ein helpu i asesu os ydym yn gwneud gwahaniaeth i'r cymunedau a wasanaethir gennym. Nodir y blaenoriaethau strategol mewn GOCH / MELYN neu WYRDD.

Yn atodol i'r wybodaeth honno, nodir dangosyddion perfformiad perthnasol, y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC'au) a'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC'au) yn bennaf, sy'n cyfrannu tuag at wireddu'r blaenoriaethau strategol a'r amcanion gwella drwy edrych ar draws pob un o'r chwarteli er mwyn amlygu perfformiad sydd yn gwella ac yn dirywio.

Am y tro cyntaf, yn ein dadansoddiad, cynhwyswn wybodaeth fanylach ar gyfer perfformiad yn y chwartel canol a rennir rhwng y chwarteli canol uchaf a chanol isaf er mwyn amlygu DP'au all fod angen mwy o sylw gan y gallent fod yn nes i'r chwarteli perfformiad isaf nag i'r rhai uchaf.

CYFLAWNI AR GYFER EIN DINASYDDION A'N CYMUNEDAU

Er yr heriau o ran mynd i'r afael â Blaenoriaethau Gwella 2011/12, yr oedd yr un disgwyliad i'n gwasanaethau barhau i berfformio'n dda. Mewn cyfnod o gyfyngu cyllidebau, afraid dweud bod y Comisiynwyr, aelodau, ein dinasyddion a'n cymunedau yn disgwyl mwy o effeithlonrwydd ac arbedion ar weinyddu a rheolaeth wrth gynnal gwasanaethau rheng flaen o safon uchel.

Manylir isod ynghylch y meysydd gwaith allweddol y canolbwyntiodd Gwasanaethau ar eu darparu ar gyfer ein dinasyddion a'n cymunedau yn 2011/. Mewn rhai meysydd, ceir cysylltiadau agos â'r Blaenoriaethau Gwella a'r cytundebau canlyniadau a amlinellir yn y ddogfen hon (tud 56.)

BLAENORIAETH STRATEGOL 1 – DIOGELU A DATBLYGU ECONOMI'R YNYS

Mae economi'r ynys wedi yn wynebu heriau sylweddol. Amlygodd y Cyngor y byddem yn gweithio gyda phartneriaid i wneud cynnydd ac i wella nifer a safon y cyfleoedd cyflogaeth ledled yr ynys. Yn ogystal, nodwyd gennym ein bwriad i ddatblygu'r Rhaglen Ynys Ynni - prif yrrwr economaidd i Ynys Môn, Gogledd Cymru, Cymru a'r DU - fel rhan o flaenraglen 2011/12 a'r Cynllun Busnes Corfforaethol ar gyfer 2012/15. Roedd dynodi'r Ynys fel Parth Menter Ynni yn gynharach yn y flwyddyn yn cadarnhau pwysigrwydd cyfleoedd adfywio a budd ehangach.

Tra bod rhai arwyddion bod pethau'n gwella gyda thwf yn y sector twristiaeth, nodwyd y byddem yn adeiladu ar ein cynlluniau cefnogi busnes ac yn parhau i gydgyssylltu cymorth mewn meysydd allweddol fel y sector ynni, twristiaeth a datblygu isadeiledd yn y 12 mis nesaf er mwyn sicrhau'r manteision economaidd mwyaf posib i'n trigolion.

Mae ynni yn sector twf byd-eang ac, oherwydd ein lleoliad, rydym mewn sefyllfa dda i fod yn ganolbwynt byd-eang ar gyfer ymchwil a datblygu, arddangos, cynhyrchu a gwasanaethu ym maes ynni, bônt yn rhai niwclear, gwynt, biomas, llanwol neu solar. Felly, roedd yn bryder bod y datblygiad niwclear arfaethedig yn cael ei yrru gan Horizon wedi ei atal yn gynharach yn 2012 gyda RWE Npower ac EON penderfynu ar newid cyfeiriad. Fodd bynnag, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud hyd yn hyn a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn 2012/13

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn datblygu, yn cefnogi ac yn gweithredu cysyniad Ynys Ynni ar gyfer Ynys Môn ac fel gyrrwr ar gyfer Gogledd Cymru, Cymru, y DU ac Ewrop

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- trwy gydgyssylltu a bwrw ymlaen gyda'r polisi, caniatadau a ffrydiau gwaith isadeiledd
- trwy sefydlu, cytuno a mynd ar drywydd cyfleoedd etifeddiaeth a all godi o adeiladu gorsaf Niwclear newydd a phrosiectau ynni eraill
- trwy ddatblygu prosiect carbon isel / ynni adnewyddadwy rhagorol, gan weithio'n agos gyda Cyngor Gwynedd
- trwy ymchwilio i sefydlu partneriaethau gyda'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yng Nghymru, y DU ac Ewrop

Yr hyn a wnaethom

- Cydweithredwyd gyda'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) i sicrhau mabwysiadu'r Polisi Llety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro a'r polisi Cludiant (Datblygiadau Mawr) dros dro;
- Ymatebwyd i bob ymgynghoriad ynghylch polisiau mewnol i sicrhau bod cyfleoedd yn sgil y Rhaglen Ynys Ynni yn cael eu hadlewyrchu lle y bo'n briodol;
- Ymatebwyd i bob ymgynghoriad cenedlaethol (statudol ac anstatudol) mewn perthynas â datblygiadau ynni mawr i bwysleisio pwysigrwydd y fenter Ynys Ynni i'r agenda leol, genedlaethol a rhyngwladol;
- Cafwyd cefnogaeth y Cyngor llawn i Ddatganiad Ymgynghori Cymunedol Pŵer Niwclear Horizon;
- Datblygwyd a chytunwyd ar sail Datganiad Tir Cyffredin gyda Pŵer Niwclear Horizon a'r Grid Cenedlaethol – mae cynnydd pellach yn dibynnu ar ddatblygwr newydd ar gyfer adeiladu gorsaf niwclear newydd.

Bydd effaith penderfyniad RWE N Power ac E-ONs i beidio â mynd ymlaen i adeiladu gorsaf niwclear newydd yn Wylfa yn cael ei adolygu yn ystod 2012.

- Mae canlyniadau etifeddiaeth y Rhaglen Ynys Ynni wedi cael eu diffinio a'u mabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith;
- Ceisiwyd cyngor cyfreithiol ynghylch cwrpas manteision etifeddiaeth statudol ac anstatudol.
- Mae 89% o brosiect Cynlluniau Ynni Canolfan Fusnes Môn wedi'i gwblhau;
- Mae'r prosiect peilot ynni ar gyfer mân-ddaliadaethau Ynys Môn wedi'i gwblhau.

Yn ogystal, sefydlwyd rhaglen ehangach o waith gennym o'r enw Ynys Fenter sy'n cynnwys Rheoli Cyrchfan / Twf Busnes ac Adfywio i gyd-fynd â'r rhaglen Ynys Ynni. Mae hyn wedi'n galluogi i alinio ein hunain â'r dynodiad Parth Menter Ynni a roddwyd ini gan Llywodraeth Cymru.

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu a phartneriaethau gyda'r sectorau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus i adfywio'r ynys

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- trwy gydweithio gyda phartneriaid allanol i ddylanwadu ar bolisiau domestig a pholisi'r Undeb Ewropeaidd i'r dyfodol a chyllido datblygiad
- trwy roi cymorth i gydranddeiliaid mewnol ac allanol fanteisio ar gyfleoedd cyllido yn y dyfodol
- trwy nodi cyfleoedd strategol i ddenu cyllid i weithredu cynlluniau a fydd yn ychwanegu gwerth ar gyfer ein trigolion a'n cymunedau lleol

Yr hyn a wnaethom

- Cadarnhawyd gennym fod 3 o brosiectau CSYM a ariannir gan arian Cydgyfeiriant yr UE wedi'u cymeradwyo (Potensial, Datblygu Cymunedau Cydweithredol a Chymorth Technegol SET);
- CSYM / Partneriaeth Adfywio Economaidd Ynys Mon (PAEYM) wedi cyflwyno ymateb i bob ymgynghoriad polisi ac ariannu UE
- Mewn partneriaeth, hwyluswyd datblygiad 3 phrosiect a arweinir gan sefydliadau allanol (Cyfenter Menter Môn a ariannir gan arian Cydgyfeiriant yr UE, Cysylltiadau Gwyrdd Cadw Cymru'n Daclus a ariannir gan Gydgyfeiriant yr UE a phrosiect Canolfan Gymuned Ward Tudur a ariannir gan CFEP.

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn datblygu'r capasiti sgiliau i gwrdd ag anghenion y farchnad lafur

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- trwy weithio gyda phartneriaid i adnabod anghenion sgiliau sy'n gysylltiedig â'r prosiectau ynni a datblygu'r sgiliau'n lleol drwy Addysg Bellach ac Uwch
- trwy weithio gyda'r sector preifat ac ysgolion i ychwanegu at nifer y disgyblion mewn STEM a hyrwyddo cyfleoedd
- trwy weithio gyda Coleg Menai a chydranddeiliaid eraill i gyflwyno prosiect 'Get Skilled Up'

Yr hyn a wnaethom

- Llwyddasom i gyflawni prosiect Anweithgarwch Economaidd Môn Menai a brofodd i fod yn gatalydd effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth / ar y cyd. Yn dystiolaeth o hyn llwyddwyd i gyflawni ymyraethau i feithrin cysylltiadau gweithio rhwng darparwyr, dulliau gwell o gyfnewid gwybodaeth a chreu nifer sylweddol o gyfleoedd gwaith a hyfforddiant na fyddent wedi'u diogelu fel arall. Bu i'r prosiect hwn gael ei oruchwylio gan y Bwrdd Gwasanaeth Lleol Ynys Môn
- Rhoddwyd cefnogaeth gennym i weithredu Cronfa Swyddi'r Dyfodol yn lleol i gynnal 52 lleoliad gwaith ym Môn

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn parhau i ddatblygu a hyrwyddo cyfleoedd twristiaeth

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- trwy sefydlu a gweithredu partneriaeth breifat / gyhoeddus ar gyfer Rheoli Cyrchfannau a hynny er mwyn datblygu ein hymagwedd tuag at reoli a marchnata'r ynys fel cyrchfan
- trwy ddarparu cyfleusterau ar y tir ac ar y môr i sicrhau'r manteision economaidd mwyaf posib o arfordir Ynys Môn

Yr hyn a wnaethom

- Sefydlwyd y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan (DMP) gennym gyda'r fasnach dwristiaeth leol a chyfranddeiliaid eraill.
- Diogelwyd £25,000 o gyllid gan Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru i yrru ymlaen y gwaith o gyflawni ffrydiau gwaith DMP;
- Drafftwyd cylch gorchwyl ffurfiol;
- Cyflwynwyd drafft cyntaf o'r cynllun strategol am sylwadau;
- Cwblhawyd gwaith datblygu isadeiledd ym Mhorth Dafarch (Cam 2); Pier Biwmares a Gorsaf Cychod Hwyllo Afon Menai yn unol â Datblygiad Prosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn yn defnyddio cyllid Cydgyfeiriant yr UE;
- Cynhaliwyd 355 o sesiynau blasu caiacio.

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn cefnogi ac annog twf busnesau a chyflogaeth

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- trwy ddarparu pecynnau cyllido ar gyfer busnesau a mentrau cymdeithasol ac arian buddsoddi ynghyd â hyrwyddo entrepreneuriaeth
- trwy sicrhau'r manteision lleol mwyaf posib o drefniadau pwrcasu gwasanaethau cyhoeddus trwy sicrhau cynnydd gyda chynlluniau i wella mynediad ar gyfer cwmnïau lleol

Yr hyn a wnaethom

- Cydweithredwyd â phartneriaid i sicrhau ymagwedd gydgysylltiedig tuag at wasanaethau cefnogi busnes;
- Cyflenwyd Cronfa Fuddsoddi leol Cydgyfeiriant yr UE; I gyfanswm o £ 159,551 i gefnogi, cynorthwyo a datblygu 21 busnes newydd a 30 o fusnesau sy'n bodoli eisoes ar yr Ynys
- Rheolwyd a chydlynwyd agwedd ranbarthol y Gronfa Fuddsoddi Leol;
- Llwyddwyd i gyflenwi Wythnos Fusnes Ynys Môn gyda dros 600 o fusnesau'n cyfranogi mewn 19 o ddigwyddiadau;
- Sicrhawyd gwariant o €33,000 yn unol â phrosiect WINSENT a ariannwyd gan Interreg;
- Adolygiad parhaus o sut i wella dulliau o ymgysylltu â busnesau lleol;
- Cynorthwywyd 40 o fusnesau o ganlyniad i ddigwyddiadau Datblygu Cadwyni Cyflenwi Lleol.

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn gwella capasiti cyffredinol yr isadeiledd fel bod modd i ddatblygiadau ddigwydd

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- trwy greu cynllun isadeiledd integredig mewn partneriaeth â chydranddeiliaid lleol a chenedlaethol perthnasol a rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn datblygiadau isadeiledd
- trwy wella mynediad i wasanaethau band llydan ledled yr ynys a hyrwyddo'r defnydd ohonynt

Yr hyn a wnaethom

- Nodwyd gofynion allweddol o ran isadeiledd fel rhan o ddatblygiad y Parth Menter;
- Cyflwynwyd sylwadau gan CSYM ar y Cynllun Buddsoddi Isadeiledd Cymru drafft;
- Cydweithredwyd gyda UPCC i fwydo i mewn i'r adolygiad o dir cyflogaeth;
- Aethpwyd ar drywydd a pharhawyd i fynd ar drywydd cyfleodd ariannu Cyswllt Ewrop;
- Amlygwyd yr angen am well Isadeiledd Band Llydan gydag ymateb CSYM i'r Cynllun Buddsoddi yn Isadeiledd Cymru.

A ydym yn gwneud gwahaniaeth yn lleol?

Er mwyn dangos fod y gwaith a wnawn fel Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau ein dinasyddion, rydym hefyd wedi nodi dangosyddion perthnasol i'n helpu i fonitro ac adrodd ar b'un a yw ein hymdrechion yn gwneud gwahaniaeth (**Tabl A**). Gwelir y manylion isod, gyda'r statws CMG yn dangos p'un a ydym wedi cyflawni ein targedau gosodedig yn llawn, yn rhannol neu ddim o gwbl.



Ynghyd â'r dangosyddion hyn, rydym wedi darparu dangosyddion cenedlaethol perthnasol a gyflenwir ac a ddilysir gan Lywodraeth Cymru'n flynyddol (o **Dabl 1** ymlaen). Yn ogystal, mae'r rhain yn darparu cyfleoedd at ddibenion meincnodi fel y gallwn fel Cyngor ddangos sut y mae ein Gwasanaethau'n cymharu'n ffafriol neu'n anffafriol ag eraill yng ngogledd Cymru ac yng ngweddill Cymru.

Tabl A.

DIOGELU A DATBLYGU ECONOMI'R YNYS	Gwirioneddol 2010/11	Targed 2011/12	Gwirioneddol/ Alldro 2011/12	Statws CMG
Swm y grantiau a gynnigir i fusnesau trwy becynnau'r Cyngor	£151,500	£146,500	£159,551	
Nifer y busnesau newydd / cyfredol sydd wedi cael cymorth trwy becynnau'r Cyngor	21 / 25	12/45	21/30	
Refeniw a gynhyrchwyd gan yr holl ymwelwyr	£216.43M	£220M	£249.34M	
Nifer yr ymwelwyr bob blwyddyn	1.455 M	1.442 M	1.543M	

Addysg & Sgiliau - Mae gan addysg rôl hanfodol i'w chwarae mewn datblygu economi'r ynys, ac yn enwedig o ran paratoi plant a phobl ifanc gyda'r sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol ar gyfer y farchnad lafur. Mae'n galonogol felly fod canran y disgyblion sy'n gadael ysgol heb gymhwyster allanol cymeradwy, bod Ynys Môn yn y chwarterel uchaf ar gyfer y Dangosyddion Perfformiad perthnasol yn 2011/12.


Tabl 1



Chwartel	Safle	Tuedd	2009/10	2010/11	2011/12
Uchaf	5	I fyny	0.40	0.27	0.14



Mae hyn yn wir nid yn unig o ddisgyblion (Tabl 1) lle bo perfformiad hefyd wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2009/10, ond hefyd ar gyfer disgyblion sydd yng ngofal yr awdurdod lleol (Tabl 2).

Tabl 2



Priffyrdd a Ffyrdd - Mae sicrhau bod ein ffyrdd mewn cyflwr da hefyd yn bwysig er mwyn diogelu a datblygu economi'r ynys a darparu'r isadeiledd ar gyfer datblygu; mae hyn yn wir o ran prif ffyrdd a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd ac yn effeithio busnesau bach a mwy ar Ynys Môn. Mae felly'n fater o bryder fod Tabl 3 yn dangos ein bod yn y chwarterl canol is ar gyfer y DP perthnasol (Tabl 3) a bod perfformiad wedi dirywio ers 2010/11 i 2011/12. A hwnnw yn y 15fed safle o 22 o awdurdodau, mae pob awdurdod arall yng Ngogledd Cymru'n perfformio'n well nag Ynys Môn ar y DP hwn, ac eithrio Wrecsam.

Tabl 3



Chwartel	Safle	Tuedd	2009/10	2010/11	2011/12
Isel canolig	15	I lawr	-	10.39	11.48

BLAENORIAETH STRATEGOL 2 – ADEILADU A CHEFNOGI CYMUNEDAU CYNALIADWY

Mae oddeutu 69,000 o bobl yn byw yn Ynys Môn (49% gwryw a 51% benywod). Mae'r rhan fwyaf (46%) yn byw yn ne'r Ynys, 23% yn byw yn y Gogledd a'r 31% sy'n weddill yn byw yn y gorllewin. Mae demograffeg poblogaeth Ynys Môn yn debyg i ddemograffeg rhanbarth Gogledd Orllewin Cymru ond mae'n sylweddol hŷn na'r cyfartaledd cenedlaethol, (ONS 2009) gyda 28% o'r boblogaeth dros 60 oed a 9% dros 75 oed.

Mae yna nifer o ffactorau bywyd allweddol sy'n cynorthwyo i benderfynu i ba raddau y mae pobl - pobl hŷn a phobl ifanc - mewn sefyllfa gynaliadwy i wneud dewisiadau priodol ynghylch eu ffyrdd o fyw, cymryd rhan mewn bywyd cymunedol ehangach a chymryd balchder yn eu hardal ac adeiladu cymunedau cynaliadwy a phrysur. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys cyflwr, argaeledd a fforddiadwyedd tai lleol, natur a maint grwpiau a rhwydweithiau cymunedol a gwirfoddol, mynediad i wasanaethau lleol allweddol a chyfleuster ac iechyd democratiaeth leol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd o hyrwyddo'r iaith, diwylliant ac etifeddiaeth Gymraeg yn ein cymunedau. Mae hyn yn rhan annatod o ffabrig cymdeithasol cymunedau'r Ynys ac mae'n ganolog i ddiwylliant a hunaniaeth llawer o bobl. Mae gan yr iaith Gymraeg a diwylliant rôl bwysig o ran hyrwyddo adfywio economaidd lleol trwy ddarparu canolbwynt pwysig ar gyfer twristiaeth a chefnogi datblygiad cymunedol trwy ddarparu amrediad o gyfleoedd diwylliannol a chymdeithasol i bawb eu mwynhau.

Mae gan Ynys Môn gymeriad unigryw a hynod o ran ei diwylliant a'i threftadaeth. Mae cefnogi, hyrwyddo a gwella hunaniaeth ddiwylliannol unigryw'r Ynys yn ganolog i'r broses o wella safon bywyd i'n trigolion.

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn cydweithio i gwrdd ag anghenion tai ar yr Ynys

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- trwy rwystro digartrefedd a chynyddu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy
- trwy well trosiant anheddau sector cyhoeddus sy'n wag
- trwy sicrhau bod modd aildefnyddio cymaint â phosib o anheddau sy'n wag ar hyn o bryd yn y sector preifat
- trwy sicrhau y gall mwy o bobl hŷn ac anabl fyw yn eu cartrefi, yn hirach ac yn fwy diogel

Yr hyn a wnaethom

- Adolygwyd a diwygiwyd y meini prawf cymhwyster;
- Cytundeb gyda Chymdeithas Tai Eryri i weinyddu'r Cymorth Prynu Môn a chynlluniau Achub Morgais gan ddefnyddio cyfraniadau tai fforddiadwy ac ariannu 'atodol' a ddarperir gan Tai Eryri. sicrhau 10 uned o lety trwy gynllun ariannu 'Cymorth Prynu' y cyngor
- Darparu 5 lleiniau uned-adeiladu i gwblhau'r cynllun yn Nant y Pandy. Apwyntio Swyddog Tai Gwag penodi, creu cronfa ddata o gartrefi gwag - gan ddod â 31 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd
- Ailfodelu gwasanaeth digartrefedd a cyngor ar dai, gan greu Tîm Opsiynau Tai, gydag adnoddau staff ychwanegol i sicrhau bod cyngor amserol ac effeithiol yn cael ei ddarparu er mwyn atal digartrefedd a hwyluso defnydd mwy effeithiol o lety sector preifat ar gyfer y rhai yn gofyn am gymorth tai. Cyflogi Swyddog Cyswllt Landlordiaid i hwyluso gwell gweithio mewn partneriaeth gyda landlordiaid y sector breifat, a lleihau effeithiau diwygio budd-dal tai ar gyfer pobl senl o dan 35 mlwydd oed sy'n ddarostyngedig i gyfradd ystafell llety senl a rennir
- Symleiddio'r gweithrediad y Cynllun Prydlesu Preifat er mwyn sicrhau ei hyfywedd fel dewis arall addas i wely a brecwast. Swyddog pwrpasol yn darparu rheoli tenantiaeth dwys i gefnogi teuluoedd sy'n agored i niwed i gynnal eu tenantiaethau a lleihau digartrefedd ailadroddus
- Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer oedolion (310) a phlant (294) - cyfartaledd 309

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn canolbwyntio ar wasanaethau effeithiol ac effeithlon i gwrdd ag anghenion a dyheadau plant a phobl ifanc

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- trwy gynnig ystod lawn o achrediadau hamdden / dysgu a gweithredu system i fonitro cyflawniad gweithgareddau galwedigaethol/analwedigaethol ymysg pobl ifanc
- trwy ddarparu rhaglenni addysgiadol i gwrdd ag anghenion pobl ifanc gan adlewyrchu materion hanfodol o ran ffordd o fyw a chyfluoedd mewn diwydiant e.e. twf yn y sector ynni

Yr hyn a wnaethom

- Annog pobl ifanc ar Ynys Môn i ddilyn ystod lawn o achrediadau hamdden / dysgu arweiniodd at 677 achrediadau a enillwyd yn erbyn targed o 475 o fewn y Gwasanaeth Ieuencid
- Darparu rhaglenni addysgol i ddiwallu anghenion pobl ifanc, gan adlewyrchu materion hanfodol ffordd o fyw gyda 3951 o bobl ifanc (yn erbyn targed o 1,800) yn cymryd rhan mewn sesiynau addysgol ffordd o fyw ar draws yr ynys

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn hyrwyddo ac yn gwarchod yr Iaith Gymraeg, y diwylliant a'r dreftadaeth Gymreig

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- trwy sefydlu fforwm iaith Gymraeg o sefydliadau partner allweddol
- ychwanegu at ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad pobl o gynnyrch Twristiaeth Treftadaeth Ynys Môn

yn a wnaethom

- Ni lwyddwyd i sefydlu fforwm iaith Gymraeg yn 2011/12. Fodd bynnag, mae'r Prif Weithredwr wedi nodi fod y mater hwn yn flaenoriaeth yn ystod 2012/13. Mae trefniadau ar fynd ar y cyd â'r Fenter Iaith i sefydlu'r Fforwm Iaith Sirol fel Fforwm Strategol I gyd-gordio gwaith partneriaeth;
- Cynhyrchwyd a dosbarthwyd Llyfryn Taith Treftadaeth Ynys Môn gennym i'n niferoedd bythol gynyddol o ymwelwyr;
- Sicrhawyd y gwariwyd €428K yn unol ag allbynnau Prosiect Ton Geltaidd ('Celtic Wave') Interreg i hyrwyddo Gogledd Cymru ac Ynys Môn fel cyrchfan i longau mordwyo ymweld â hi;
- Ymgwymerwyd â 17 o ymweliadau Busnes i Fusnes gyda Gweithredwyr Llongau Mordwyo i hyrwyddo Ynys Môn a Gogledd Cymru;
- Ymgwymerwyd â 11 o ymweliadau cyfarwyddo gyda Phrif Swyddogion Llongau Mordwyo i annog cyfranogiad lleol;
- Cydweithredwyd â 'UK Cruise Ground Handlers' i gael cymaint o draffig teithwyr llongau mordwyo â phosib i Gyrchfannau Twristiaeth Treftadaeth ar yr Ynys – cyflawnwyd 6 taith;
- Ehangwyd y ddarpariaeth a chynyddwyd mentrau traws-hyrwyddol o fewn y sector Twristiaeth Treftadaeth mewn cydweithrediad â CADW a Menter Môn drwy weithredu Prosiect Twristiaeth Treftadaeth Mona Antiqua yn Ilwyddiannus;
- Aethpwyd y tu hwnt i gynnydd ychwanegol o 3% mewn ymweliadau twristiaeth.

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid sector preifat i leihau allfudiad a denu pobl ifanc yn ôl i'r Ynys

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- trwy weithredu'r cynllun Llwyddo'n Lleol
- trwy weithio i nodi'r hyn sydd ar gael i hybu busnesau a chyfleoedd economaidd ar gyfer mewnfuddsoddiad i'r Ynys a datblygu strategaeth ar gyfer twristiaeth i adeiladu ar atyniadau naturiol Môn

Yr hyn a wnaethom

- Gweithredu pob agwedd o'r prosiect Llwyddo'n Lleol ar Ynys Môn. Y broses dendro - i ddewis contractwyr i gyflawni pob un o weithgareddau'r prosiect allweddol – wedi ei gwblhau yn 2010, ac nifer o gynlluniau (gan gynnwys Lefel 1 a Lefel 2 BTEC Gwaith Modiwlau Entrepreneuriaeth Sgiliau cynlluniau) yn cael eu gweithredu yn fuan wedi hynny. Mae dros 1,000 o bobl ifanc - rhwng 11 a 19 oed - wedi cymryd rhan mewn un neu fwy o weithgareddau'r allweddol y prosiect, a mwy na deg ar hugain mentrau busnes newydd wedi derbyn cymorth ariannol (cyfanswm o fwy na £ 30,000) drwy Cynllun Bwrsariaeth Llwyddo'n Lleol Ynys Môn.
- Paratowyd fframwaith Adfywio Caergybi a Llangefni i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio;
- Sicrhawyd gwariant refeniw o £101K ar brosiectau Blaenoriaeth y Tair Tref a nodwyd;
- Wedi cyflawni gostyngiad o 5 uned yn nifer yr eiddo gwag o fewn Tair Prif Dref Ynys Môn;
- Sicrhawyd gwariant o £107k i gyflawni cynllun gweithredu BRAND
- Sicrhawyd gwariant o £13,411 yn unol ag allbynnau Prosiect Datblygu Twristiaeth Wledig Cynllun Busnes 1 y Cynllun Datblygu Gwledig;
- Sicrhawyd gwariant o £28,867 yn unol ag allbynnau Prosiect Arfordirol Cynllun Busnes 1 y Cynllun Datblygu Gwledig
- Sicrhawyd gwariant refeniw o £219,000 yn unol â Phrosiect Datblygu Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn Cydgyfeiriant yr UE;
- Nodwyd a datblygwyd cynlluniau cyfalaf a refeniw posib fel rhan o Gam 2 o'r Prosiect Amgylchedd Arfordirol; a diogelu cyllid allanol ychwanegol i'w weithredu'n unol â hynny;
- Cydweithredwyd â'r Gwasanaeth Eiddo i gynnal lefel deiliadaeth Unedau Busnes o 48% ym mhortffolio unedau diwydiannol y Cyngor;
- Diogelwyd £350k o gyllid cyfatebol gan Môn-Menai i gyflawni prosiect Safleoedd ac Eiddo Ynys Môn;
- Cynorthwywyd 3 phrosiect datblygu trefol preifat mawr.

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn hyrwyddo, yn gwarchod ac yn gwneud defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd unigryw a naturiol

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- trwy weithredu Cynllun Rheoli AoHNE Ynys Môn er mwyn sicrhau bod yr AoHNE yn cael ei rheoli'n gynaliadwy yn y dyfodol ar gyfer ei defnyddio gan ddinasyddion ac ymwelwyr fel ei gilydd
- trwy ddatblygu, rheoli a hyrwyddo safleoedd Cefn Gwlad
- trwy wella'r % o hawliau tramwy cyhoeddus sy'n hawdd i'w defnyddio
- trwy ailgylchu cymaint o wastraff ag sy'n bosibl
- trwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion er mwyn rhoi i bobl ifanc y profiad o weithgareddau awyr agored arbenigol

Yr hyn a wnaethom

- Gweithredwyd Cynllun Rheoli'r AoHNE drwy Gydbwyllgor Ymgynghorol;
- Gweithredwyd Cynllun Rheoli ar gyfer Parc Gwledig y Morglawdd a Gwarchodfa Natur Leol Nant y Pandy;
- Cafodd % yr hawliau tramwy cyhoeddus sy'n hawdd i'w defnyddio ei wella – darparwyd cyllid ychwanegol o oddi mewn i gyllideb y gwasanaeth i wella arwyddion ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus;
- Hyrwyddwyd defnyddiau wedi'u hailgylchu i'w defnyddio yng Nghytundebau Gwasanaeth Cyfnod Penodol ('Term Service Contracts') Priffyrdd a Phalmentydd mewn partneriaeth â contractwyr cyfnod penodol, yn defnyddio MOT math 1, cerrig mâl, priddoedd a deunyddiau draenio wedi'u hailgylchu. Mae'r hen ddepo priffyrdd wedi'i ddymchwel ac mae'r safle wedi'i addasu i fod yn ganolfan ar gyfer ailgylchu gwastraff priffyrdd ac adeiladu. Rhoddwyd caniatâd cynllunio a cheisiwyd cymeradwyaeth Asiantaeth yr Amgylchedd.
- trefnu rhaglenni antur awyr agored ar gyfer pobl ifanc i wneud defnydd o'r amgylchedd naturiol, gan annog sefydlu clybiau (fel llwybr cynnydd o sesiynau blasu) a chymhwyso arweinwyr / hyfforddwyr-fel bod gweithgareddau yn gynaliadwy - ee. sefydlwyd 1 clwb newydd, cynnal 36 digwyddiad cyfranogi, rhoi cymorth i 11 o glybiau, adnabod 57 o wirfoddolwr, cynnal 8 diwrnod mentro, 12 gyfleoedd datblygu, 1 cwrs iaith Gymraeg, 1 clwb yn cyflawni achrediad, cynnal 3 Fforwm Awyr Agored Ynys Môn, cynnal 1 Gwyl Awyr Agored

A ydym wedi gwneud gwahaniaeth yn lleol?

Er mwyn asesu a yw gwaith a wnawn fel Cyngor mewn perthynas â'n hail flaenoriaeth strategol yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau ein dinasyddion, rydym hefyd wedi nodi dangosyddion perthnasol i'n helpu i fonitro ac adrodd os bu i'n hymdrechion


wneud gwahaniaeth (**Tabl B**). Gwelir y manylion isod, gyda'r statws CMG yn dangos p'un a ydym wedi cyflawni ein targedau gosodedig yn llawn, yn rhannol neu ddim o gwbl.

Ynghyd â'r dangosyddion hyn, rydym wedi darparu dangosyddion cenedlaethol perthnasol a gyflenwir ac a ddilysir gan Lywodraeth Cymru'n flynyddol (o **Dabl 4** ymlaen). Yn ogystal, mae'r rhain yn darparu cyfleoedd at ddibenion meincnodi fel y gallwn fel Cyngor gyfathrebu sut y mae ein Gwasanaethau'n cymharu'n ffafriol neu'n anffafriol ag eraill yng Ngogledd ac yng ngweddill Cymru.

Tabl B - ADEILADU A CHEFNOGI CYMUNEDAU CYNALIADWY	Gwirioneddol 2010/11	Targed 2011/12	Gwirioneddol 2011/12	Statws CMG
Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i Barc Gwledig y Morglawdd / Gwarchodfa Natur Nant y Pandy	165,668	170,000	173,983	
% o lwybrau troed a hawliau tramwy sy'n hawdd i'w defnyddio	52%	56%	54.5%	
% o wastraff sirol yr Awdurdod Lleol a gafodd ei ailgylchu	24%	24%	23.45%	
%o wastraff sirol yr Awdurdod Lleol a gasglwyd ac a anfonwyd i safle claddu gwastraff	45.5%	44%	42.2%	
% o'r holl aelwydydd a allai fod yn ddigartref y bu modd osgoi eu gwneud yn ddigartref am 6 mis	73%	74%	81.6%	
Nifer y cartrefi gweigion y bu modd eu defnyddio drachefn -	8	10	31	
Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i osod unedau o lety parhaol a oedd ar gael i'w gosod	80 days	70 days	87.2days	
Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i Atyniadau Treftadaeth ar yr Ynys	308,430	311,000	316,000	
Cynnydd yn nifer yr Atyniadau Treftadaeth yr ymwelwyd â nhw gan deithwyr o'r Llongau Mordwyo	3	4	5	


Tai - Mae Tai yn chwarae rhan fawr mewn sicrhau ein bod yn adeiladu ac yn cefnogi cymunedau cynaliadwy. Mae felly'n galonogol i ganfod mai Ynys Môn oedd y perfformiwr gorau ond un ledled Cymru (Tabl 4) mewn perthynas â'r ganran o dai fforddiadwy a ddarperir. Mae'n amlwg hefyd y bu gwelliant sylweddol rhwng 2010/11 a 2011/12, gyda'r ganran yn codi o 13.48% i 41.78% - gan symud y cyngor o 18 i zil safle yng Nghymru fel y gwelir yn y tabl (isod). Mae hyn wedi bod o ganlyniad i ffocws ar y cyd ac ymdrech gan y Cyngor a'i bartneriaid ar yr angen tai penodol hwn.

Tabl 4



Chwartel	Safle	Tuedd	2009/10	2010/11	2011/12
Uchaf	2	I fyny	23.72	13.48	41.78


Tabl 5



Cafwyd welliant yn nifer yr **aneddiadau sector preifat gwag** y bu modd eu defnyddio drachefn rhwng 2010-11 a 2011/12 (Tabl 5), Fodd bynnag, rydym yn y chwarter canol isaf ar gyfer perfformiad ledled Cymru ar gyfer y DP hwn, ac eithrio Sir y Fflint nid ydym yn cymharu'n dda gyda'r cynghorau sy'n perfformio orau yng Ngogledd Cymru o ran y dangosydd hwn.

Yn yr un modd, mae perfformiad flwyddyn ar ôl blwyddyn yn gwella o ran **atal digartrefedd** (Tabl 6) ac rydym yn cymharu'n weddol dda yn nhermau perfformiad cyffredinol gyda'r awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru. Rydym ym mhen isaf y chwarter canol uchaf ar gyfer perfformiad ledled Cymru ond dal yn well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Gogledd Cymru. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi ailfodelu'r gwasanaeth digartrefedd a chyngor ar dai, gan greu Tîm Opsiynau Tai, gydag adnoddau staff ychwanegol i sicrhau bod cyngor amserol ac effeithiol yn cael ei darparu i atal digartrefedd.

Tabl 6




Mae ymgyrch arbennig wedi cael ei wneud i ail-osod unedau o lety parhaol sydd yn cael eu labelu fel 'anodd i'w gosod' - rhai a fu'n wag yn flaenorol am 2 - 3 blynedd,. Mae dogfen bolisi wedi ei mabwysiadu gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn, sy'n rhestru'r camau i'w cymryd i helpu i ail-osod yr eiddo hyn. Mae cyfarfod wythnosol yn digwydd i fonitro perfformiad o ail-osod eiddo gwag. Gosodwyd dau darged, un o 70 diwrnod oedd yn cynnwys y rhai 'anodd eu gosod', a targed arall o 35 diwrnod oedd yn eithrio 'anodd eu gosod'. Mae system TG newydd wedi ei chaffael hefyd yn ystod y flwyddyn, gyda cam 1 o'r system yn dod yn weithredol ym mis Rhagfyr 2012. Gwnaethpwyd gwaith hefyd ar gan grŵp o swyddogion a Thenantiaid i adolygu 'safonau i'w gosod' ar gyfer holl eiddo'r Cyngor, gan ddatblygu taflen wybodaeth a chanllawiau 'safonau gofynnol gosod' newydd.


Addysg - Mae addysg hefyd yn chwarae rhan bwysig mewn adeiladu a chefnogi cymunedau cynaliadwy. Mae'n galonogol i weld bod y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer disgyblion 15 oed mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol wedi gwella'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gyda'r tuedd yn parhau i fod am i fyny yn 2011-12, gydag Ynys Môn yn codi i gyd-fynd yn fwy â'r cyfartaledd ar draws awdurdodau Gogledd Cymru o safle 2010/11 (Tabl 7). Fodd bynnag, mae'n bryder bod y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn unrhyw leoliad dysgu a gynhelir gan awdurdod lleol nid yn unig yn gweld rhagor ddirywiad perfformiad rhwng 2010/11 a 2011/12 (Tabl 8) ond hefyd yn gweld Ynys Môn fel yr un sy'n

perfformio waethaf yng Nghymru ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn 2011/12. Mae niferoedd bach yn ffactor sy'n cyfrannu yma ac er bod hyn angen eu cymryd i ystyriaeth mae'r pryder yn parhau.

Tabl 7





Tabl 8





Mae'r ddau dabl a ganlyn (Tabl 9 a 10) yn amlinellu perfformiad Ynys Môn ar gyfer y ddau DP hyn

Tabl 9



Chwarterl	Safle	Tuedd	2009/10	2010/11	2011/12
Isel canolig	12	I fyny	357.23	372.34	428.14



Tabl 10



Chwarter	Safle	Tuedd	2009/10	2010/11	2011/12
Isaf	22	I lawr	126.00	171.67	76.83

Mae cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd hefyd yn bwysig yn nhermau cyflawniad addysgol a datblygu a chefnogi cymunedau cynaliadwy. Mae Tabl 11 isod yn edrych ar gyfraddau presenoldeb yn ein hysgolion cynradd sy'n dangos fod Ynys Môn yn y chwarter canol uchaf, ond mai'r duedd gyffredinol yw dirywiad bach rhwng 2010/11 a 2011/12.



Tabl 11



Chwartzel	Safle	Tuedd	2009/10	2010/11	2011/12
Canol uchaf	10	I lawr	93.93	93.79	93.52

Fodd bynnag, mae presenoldeb mewn Ysgolion Uwchradd yn fwy o bryder, sydd hefyd yn un o'n targedau Cytundebau Canlyniadau, sy'n gweld ein safle yn 18fed o 22 o awdurdodau ac sy'n ein rhoi o fewn y chwartzel isaf o berfformiad ledled Cymru (Tabl 12). Fodd bynnag, ceir gwelliant bach yn y mesur rhwng 2010/11 (90.63%) a 2012 (90.87%) ond mae hwn yn dal yn is na'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau Cymru (91.4%) a Gogledd Cymru (92.1%).

Tabl 12





Chwarterl	Safle	Tuedd	2009/10	2010/11	2011/12
Isaf	18	I fyny	91.04	90.63	90.87

Mae rheoli gwastraff hefyd yn cyfrannu at ddatblygu a chefnogi cymunedau cynaliadwy. Mae hwn yn faes lle mae Ynys Môn yn draddodiadol wedi perfformio'n dda dros nifer o flynyddoedd. Rydym yn y chwarterl uchaf eto ar gyfer 2011/12 ar gyfer canran y gwastraff sirol sy'n mynd i safleoedd claddu gwastraff, ac mae perfformiad wedi parhau i wella dros y tair blynedd diwethaf (Tabl 13). Yn yr un modd, rydym hefyd yn y chwarterl uchaf ar gyfer gwastraff sirol sy'n cael ei aildefnyddio neu ei ailgylchu (Tabl 14) ac unwaith eto mae perfformiad wedi gwella o 54% yn 2010/11 i 55% yn 2011/12. Mae Ynys Môn yn casglu gwastraff drwy y Dull Trefnu yn Ymyl y ffordd a ffafriir gan WG, tra bod y rhan fwyaf os nad pob un ailgylchwyr uchel eraill yn defnyddio'r Dull Cyd-gymysgu



Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi fod y DP hwn - WMT/009 - wedi'i 'gymhwyso' gan ein Harchwilwyr, PwC, gan na all ein harfer presennol wahanu gwastraff traethau o wastraff mwy cyffredinol ac o ganlyniad mae'n groes i'r diffiniad o'r dangosydd cenedlaethol hwn.

Wedi dweud hynny, byddai gwastraff traethau yn gwella ein perfformiad ymhellach yn y DP hwn ac felly gallwn gael ein calonogi o hyn, gyda'r dybiaeth y byddai ein perfformiad yn gwella pe bai'r arfer o wahanu gwastraff traethau'n cael ei fabwysiadu.

Tabl 13





Tabl 14



Llyfrgelloedd - Mae ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn fater o bryder o ran adeiladu cymunedau cynaliadwy. Mae data cymharol yn dangos fod gennym y nifer isaf o ymwelwyr i'n llyfrgelloedd ledled Cymru. Wedi dweud hyn, dros y flwyddyn, rydym wedi gweld cynnydd graddol (5%) yn niferoedd yr ymweliadau â'n llyfrgelloedd lleol sy'n dangos ymwybyddiaeth gynyddol o'u darpariaeth.

Tabl 15



Chwarterl	Safle	Tuedd	2009/10	2010/11	2011/12
Isaf	22	I fyny	3705.60	3758.14	3965.40

Gweithgaredd Rheoleiddiol

(A) Cynnal Gwasanaeth Gwerthfawr – Pedwerydd Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

Mae'n ofynnol i awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru gyflwyno Adroddiad Blynyddol i Lywodraeth Cymru yn adrodd ar berfformiad yn erbyn 9 Safon Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ac 8 Dangosydd Perfformiad Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a geir yn y Fframwaith.

Mae'r Aseiad yn nodi yr ymddengys fod y gweithgaredd cynllunio yr ymgwymerwyd ag ef yn ystod 11-12 wedi ymwneud â pherfformiad y gwasanaeth llyfrgelloedd o ran y Safonau a'r Dangosyddion, a hefyd mewn perthynas â chyflawni gostyngiadau mewn gwariant. Mae gweithredu'r gostyngiadau hyn wedi effeithio'r gronfa lyfrau (gydag effaith negyddol yn

syth ar rai perfformiadau o ganlyniad), ynghyd ag amryw agweddau eraill ar y gwasanaeth, gan gynnwys staffio cefnogol, cyfnewid staff a rheoli stoc. Yn y meysydd hyn, nid yw'r effaith yn amlwg eto yn y perfformiad a adroddwyd. Nid yw'r Adroddiad Blynyddol yn dangos p'un a yw'r gostyngiadau mewn adnoddau sy'n ofynnol o'r gwasanaeth llyfrgelloedd a gwybodaeth yn gyfartal â'r rheiny sydd eu hangen o wasanaethau statudol eraill yr awdurdod, a dylai'r Adroddiad Blynyddol nesaf fynd i'r afael â'r mater hwnnw.

Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Ynys Môn yn cyflawni 6 o'r 9 o Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Nodwyd fod lefelau staffio isel ac effaith y gostyngiadau yn y gyllideb ar lefelau stoc yn bryder.

Nododd yr aseswyr fod perfformiadau'n dangos peth gwelliant, ond hefyd rhai dirywiadau arwyddocaol. Ymddengys fod lefelau defnydd yn cynyddu, mae nifer y llyfrau a ddsbarthir wedi cynyddu'n sylweddol iawn, mae'r defnydd o TGC yn cynyddu hefyd.

Mae'r dirywiadau mewn perfformiad yn ymwneud yn uniongyrchol â gostyngiad yn y gwariant ar lyfrau a deunyddiau (WPLPI 5 canran cyfanswm cyllideb y llyfrgell sy'n cael ei wario ar lyfrau). Yn hanfodol, mae gwariant cyffredinol yr awdurdod ar ddarparu gwasanaethau llyfrgell hefyd wedi gostwng yn sylweddol o gymharu â 2010-11 (WPLPI 8).

Bydd y Llywodraeth yn ceisio sicrwydd fod yr awdurdod wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i ofynion y Fframwaith Safonau a Dangosyddion hwn yn ei drafodaethau a'i benderfyniadau ynghylch ariannu a natur y gwasanaeth i'r dyfodol.

(B)Yr Archifau Cenedlaethol (YAC)* - Arolwg o Archifau Ynys Môn, Mawrth 16, 2012

Cynhaliodd YAC arolwg llawn o Archifau Ynys Môn ar Fawrth 16, 2012. Cynhaliwyd yr arolwg am ddau reswm: (1) Mewn perthynas â dyletswydd statudol YAC i arolygu a phenodi manau i gadw cofnodion cyhoeddus - roedd ar y cyfleuster archifau newydd 'Archifau Ynys Môn' angen ei arolygu er mwyn sicrhau y gallai'r man cadw ar gyfer Archifau Ynys Môn barhau yn y lleoliad newydd. (2) Mae Archifau Ynys Môn yn tanysgrifio i 'Safon Cadwrfeydd Cofnodion' YAC - roedd yr arolwg yn cynnwys asesiad o'r cyfleuster newydd (yr adeilad a gweithrediad yr archifau) i weld a yw'n cyflawni gofynion y safon sy'n ofynnol i gael cymeradwyaeth YAC.

Casgliad yr Arolwg :

- (1) Penodi Archifau Ynys Môn yn ffurfiol yn Fan Cadw**
- (2) Rhoi cymeradwyaeth YCA ar gyfer y gwasanaeth hwn.**

AROLWG ESTYN

Cafodd adroddiad Estyn ar ansawdd gwasanaethau addysg yr awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc ar Ynys Môn ei gyhoeddi ar ddiwedd mis Gorffennaf, 2012. Barnwyd fod perfformiad cyffredinol a rhagolygon ar gyfer Gwella yn anfoddhaol. Roedd Perfformiad Cyffredol yn anfoddhaol oherwydd

- safonau o ar gyfer plant a phobl ifanc yn is na'r hyn a allai fod ddisgwyllir ym mhob cyfnod allweddol;
- cyfraddau presenoldeb o mewn ysgolion uwchradd yn annerbyniol o isel;
- y gwasanaeth gwella ysgolion yn annigonol
- nid oes digon o gynnydd wedi'i wneud wrth gynllunio ar gyfer lleoedd mewn ysgolion;
- nid yw arweinyddiaeth weithredol wedi gyrru gwelliannau mewn meysydd o danberfformio wrth gyflwyno addysg ,ac nid yw ysgolion a swyddogion wedi dal i gyfrif; a
- nid yw cynllunio busnes a prosesau asesu risg wedi bod yn ddigon cadarn i nodi a mynd i'r afael â'r arafrwydd o gynnydd yn y gwasanaethau addysg ac ysgolion

Roedd Rhagolygon ar gyfer Gwella yn anfoddhaol oherwydd

o bod hanes hir o danberfformio ar lefel gwasanaeth;

o fod cyflymder gweithredu i sicrhau gwelliant wedi bod yn rhy araf yn y gorffennol i roi sicrwydd y gall gwelliant ddilyn arolygiad heb her allanol;

o Bod hunan-arfarnu wedi bod yn dameidiog a chynnydd yn erbynargymhellion a wnaed mewn arolygiadau blaenorol wedi bod yn gyfyngedig;

o Nid yw arweinwyr ysgolion o wedi cael eu dal yn atebol;ac

- fod llinellau atebolrwydd ar lefel gwasanaeth yn aneglur.

Roedd Estyn o'r farn bod y materion canlynol angen rhoi sylw iddynt.

A1 Codi safonau ym mhob cyfnod allweddol a gwneud yn siŵr bod yr holl ddysgwyr sy'n gallu gwneud hynny yn cyflawni llythrennedd erbyn diwedd cyfnod allweddol 2;

A2 Cynllunio yn fwy effeithiol gyda'r gweithwyr proffesiynol perthnasol i wella cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol;

A3 Sefydlu cynllunio busnes cadarn, cynllunio project a phrosesau asesu risg i broffesiynoli'r ddarpariaeth weithredol o ddarparu gwasanaethau addysg;

A4 Cynllunio effeithlonrwydd gwell o ran dyrannu adnoddau ar gyfer y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes;

A5 Sicrhau trylwyredd a chysondeb gwell ar gyfer hunan-arfarniad gweithredol a strategol;

A6 Cymryd camau i leihau lleoedd dros ben; a

A7 Ffurfioli a chryfhau systemau rheoli perfformiad a herio perfformiad ysgolion a swyddogion.

Mae pob un o'r materion a nodwyd fel rhai sydd angen sylw gan Estyn bellach wedi cael eu tynnu at ei gilydd ac mae'r Cyngor wedi llunio Cynllun Gweithredu Ôl Arolwg manwl (CGOA) er mwyn mynd i'r afael â'r holl argymhellion.

BLAENORIAETH STRATEGOL 3 – HYRWYDDO CYMUNEDAU IACH, DIOGEL A THEG

Mae iechyd da yn factor pwysig ar gyfer bywyd pob dydd sy'n caniatáu i bobl gyflawni swyddogaethau sylfaenol bob dydd, datblygu i'w llawn botensial a mwynhau safon bywyd da sy'n rhoi boddhad.

Mae iechyd y boblogaeth yn hanfodol i sicrhau ansawdd bywyd gwell ar Ynys Môn. O'r herwydd, un o gonglfeini ein rhaglen yw darparu cymunedau gwell sy'n iachach, yn ddiogelach ac yn decach a hynny trwy amrediad o wasanaethau ataliol, gwellhaol a chefnogol mewn partneriaeth gyda chydranddeiliaid eraill sydd o'r un farn. Bydd yn fodd o sicrhau bod trigolion Ynys Môn yn gallu mwynhau bywydau iach ac egnïol a'u bod yn gallu cael at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol addas yn brydlon pan gyfyd yr angen.

Mae'r tri maes blaenoriaeth, sef ffyrdd o fyw iach / cyflyrau cronig a hyrwyddo annibyniaeth yn themâu sy'n croestorri ac sy'n gysylltiedig â'i gilydd. Maent yn adlewyrchu'r polisi cenedlaethol sy'n esblygu a'r cyd-destun blaenoriaeth ar gyfer datblygu a darparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles i wella gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd er mwyn cwrdd â gofynion poblogaeth Ynys Môn waeth beth fo'u hil, rhyw, oed, anabledd, daliadau crefyddol neu gyfeiriadedd rhywiol. Maent yn mynd law yn llaw ac hefyd yn berthnasol i gwrdd ag anghenion grwpiau o ddefnyddwyr bregus penodol o fewn y boblogaeth.

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud - Byddwn yn hyrwyddo ffyrdd iach ac egnïol o fyw ar draws pob ystod oed

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- Trwy annog plant ifanc ar Ynys Môn i fyw bywydau egnïol a datblygu'n drigolion egnïol
- Trwy annog oedolion ar Ynys Môn i fod yn fwy egnïol, yn fwy aml, drwy gydol eu bywydau
- Trwy hyrwyddo annibyniaeth mewn perthynas ag iechyd a helpu pobl i reoli salwch / cyflyrau cronig
- Trwy ychwanegu at y nifer sy'n cymryd rhan ac sy'n gallu cael at gyfleoedd gweithgaredd corfforol yn amgylchedd naturiol unigryw Ynys Môn

Yr hyn a wnaethom

- Darparu rhaglenni gweithgaredd ar gyfer oedran 0-18, a gyflwynir dros 5 canolfan, i gynnwys: gweithgareddau nofio, gymnasteg, pêl-droed, criced, tennis, pêl-fasged ac awyr agored. Gweithio gydag ysgolion a'r Swyddog Pobl Ifanc Egniol i ddarparu cyrsiau / sesiynau dilynol i'r sesiynau blasu cychwynnol
- Darparwyd rhaglenni gweithgaredd ar gyfer oedrannau 0-18, fe'u cyflenwyd drwy 5 canolfan i gynnwys: nofio, gymnasteg, pêl-droed, criced, tennis, pêl-fasged a gweithgareddau awyr agored. Yn gweithio gydag ysgolion a'r Swyddog Pobl Ifanc Egniol i ddarparu cyrsiau / sesiynau dilynol, o'u sesiynau blasu cychwynnol;
- Cymhwyswyd pobl ifanc mewn ystod o gymwysterau e.e. y Wobr Arweinyddion Chwaraeon Cymunedol, y Wobr Cyrff Llywodraethu. Mae nifer o bobl ifanc bellach yn cynorthwyo/arwain mewn sesiynau allgyrsiol mewn ysgolion;
- Mae'r pecyn ffitrwydd Debyd Uniongyrchol (i oedolion) wedi'i symleiddio i ddim ond 'nofio a'r gym' ac fe'i gwnaed yn fwy deniadol drwy ostwng y pris;
- Darparwyd sesiynau nofio i oedolion (ar gyfer nofwyr nerfus), sefydlwyd nofio mewn llinellau ac aerobeg dŵr mewn canolfannau hamdden;
- Datblygwyd deunydd hyrwyddol ynghylch 'un pris i bawb' a phecynnau aelodaeth canolfannau hamdden gan swyddog marchnata;
- Hyrwyddwyd adferiad ac fe gafodd cyflyrau cleifion risg isel ac uchel eu hatal rhag gwaethygu drwy'r Cynllun Cyfeirio Ymarfer Corff gyda meddygon teulu.
- Yn darparu llwybrau ymadael o gyfeiriadau i mewn i nofio am ddim, yn enwedig gweithgareddau strwythuredig.
- Rhaglenni antur awyr agored ar gyfer pobl ifanc i wneud defnydd o'u hamgylchedd naturiol - sefydlwyd 1 clwb newydd, trefnwyd 36 o ddigwyddiadau cyfranogi, cefnogwyd 11 o glybiau, canfuwyd 57 o wirfoddolwyr, cynhaliwyd 8 diwrnod gyda mentoriaid, trefnwyd 12 cyfle datblygu, rhedwyd cwrs iaith Gymraeg, mae 1 clwb yn cyflawni achrediad, cynhaliwyd 3 chyfarfod o Fforwm Awyr Agored Ynys Môn, cynhaliwyd un Wyl Awyr Agored.

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn cydweithredu i hyrwyddo diogelwch cymunedol

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- Trwy ddatblygu a gweithredu Pecyn Cymorth Archwilio Effaith Diogelwch Cymunedol i gynorthwyo'r Cyngor i briflifo diogelwch cymunedol ym mhob maes gwaith.

Yr hyn a wnaethom

- Cwblhau dogfen Asesiad Strategol i gadarnhau Ardaloedd Blaenoriaeth Allweddol -a gymeradwywyd gan y Bartneriaeth Diogelwch cymunedol [PDC];
- Cwblhau Cynllun Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Statudol – a gymeradwywyd gan y PDC;
- Cwblhau Cylch Gorchwyl, Cytundeb/Memorandwm Dealltwriaeth a ffurfio strwythur partneriaeth isranbarthol ar gyfer y Bwrdd Diogelwch Cymunedol Rhanbarthol;
- Cwblhawyd adolygiad blynyddol o Fusnes Trais yn y Cartref a'r Cynllun Gweithredu trwy'r Fforwm Trais yn y Cartref yn ôl isafswm safonau LIC;
- Mae'r gwaith o harmoneiddio prosiectau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Rhanbarthol ac Is-ranbarthol yn parhau.

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb yn lleol

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- Trwy helpu / cynorthwyo pobl ddifreintiedig i gael yn ôl i'r gwaith
- Trwy weithio mewn cydweithrediad â chydranddeiliaid lleol i ddatblygu a moderneiddio gwasanaethau sy'n anelu at gynnal cymunedau annibynnol ac iach

Yr hyn a wnaethom

- Cafodd y targed gwreiddiol o helpu 40 o bobl ddifreintiedig i gael yn ôl i'r gwaith ei leihau i 6 yn dilyn adolygiad WEFO o'r rhaglen waith a'r cyllid;
- Mae niferoedd yr unigolion a gyfeirir ar gyfer asesiadau Ail-alluogi yn parhau i gynyddu o 238 yn 2010/11 i 256 yn 2011/12;
- Graddiodd 93% o ddefnyddwyr fod y gwasanaeth a dderbyniwyd ganddynt naill ai'n dda iawn neu'n dda
- Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf i annog a chefnogi trigolion sy'n economaidd anweithgar gael mynediad yn ôl i waith

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn datblygu modelau cost effeithiol o wasanaethau gofal ar gyfer grwpiau bregus gan ganolbwyntio ar warchod anghenion plant ac oedolion

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- Trwy ddefnyddio technoleg i wella profiad y cwsmer (Teleofal)
- Trwy gyflwyno gwasanaeth ymatebol rhagweithiol mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Yr hyn a wnaethom

- Mae cyflawni targedau Teleofal yn rhwymedigaeth ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Oedolion a'r Uned Ddarparu Fewnol – aethpwyd y tu hwnt i nifer cyffredinol y defnyddwyr Teleofal, ond roedd targedau ar gyfer amryw haenau yn heriol ac o ganlyniad ni chyflawnwyd hwy; ond bellach wedi cael eu hadolygu a'u diwygio fel rhan o'r gwaith dadansoddi Cytundeb Canlyniadau gyfer 2012/13
- Gwnaed cynnydd sylweddol o ran datblygu ein pwynt mynediad sengl i wasanaethau (ac eithrio Iechyd Meddwl) ac fe'i hystyrir yn fodel o arfer dda gyda'r posibilïadau o ddatblygu i fod yn drefniant mynediad cwbl integredig;
- Parhawyd i weithio'n agos gyda Phartneriaid Iechyd i ddatblygu ystod o wasanaethau integredig – sy'n cynnwys Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu, Un Pwynt Mynediad, Gofal Canolraddol (gwasanaethau'n seiliedig rai Sylfaenol a Chymunedol). Rhoddwyd cefnogaeth lawn i gyflwyno Gofal Gwell gan Iechyd ar yr Ynys – fel peilot i ddechrau yn ardal Caergybi;
- Mae perfformiad o amgylch oediadau wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty, am resymau gofal cymdeithasol, yn dal i fod yn ardderchog ac yn bell dros gyfartaledd Cymru



A wnaethom wahaniaeth yn Lleol?

HYRWYDDO CYMUNEDAU IACH, DIOGEL A THEG	Gwirioneddol 2010/11	Targed 2011/12	Gwirioneddol 2011/12	Statws CMG
Nifer y bobl ifanc a ymwelodd â chanolfannau hamdden, fesul pob 1000 o'r boblogaeth	3601	3800	3,640	
Nifer yr oedolion a ymwelodd â chanolfannau hamdden, fesul pob 1000 o'r boblogaeth	4402	4900	4,449	
Nifer y defnyddwyr Teleofal	790	800	1,084	

% y defnyddwyr a oedd yn fwy hyderus i ymdopi yn eu cartrefi yn dilyn derbyn Teleofal	98%	98%	96%	
Nifer y bobl ddifreintiedig gafodd waith Nodwch yr adolygydd y targed gwreiddiol o 40, yn dilyn trafod gyda LIC, i 6	Gwaelodlin	6	2	
% y cleientiaid 16-24 a gefnogir yn y gymuned yn ystod y flwyddyn	Gwaelodlin	90	92.82%	
% y cleientiaid 65+ a gefnogir yn y gymuned yn ystod y flwyddyn	Gwaelodlin	81	78.74%	

Mae **ymweliadau â chanolfannau hamdden** i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol yn ffactor sy'n cyfrannu at ac sy'n ddangosydd iechyd o fewn poblogaeth. Fodd bynnag, mae Ynys Môn ychydig o dan y cyfartaledd ar gyfer ymweliadau, ac mae'r dangosydd sy'n gorwedd yng ngwaelod y chwarterl canol o berfformiad wedi dirywio ymhellach o 8996 yn 2010/11 i 8089 yn 2011/12 sy'n alldro is nag yn 2009/10.



Tabl 16



Chwarter	Safle	Tuedd	009/10	2010/11	2011/12
I sel canolig	12	I lawr	8323.87	8996.19	8089.69

Mae gofalu am anghenion y mwyaf bregus yn ein cymunedau hefyd yn flaenoriaeth bwysig o ran sicrhau cymdeithas iach, ddiogel a theg, ac mae'r Cyngor yn gorwedd o fewn y chwarter canol uchaf ar gyfer nifer y dyddiau a gymerir i gyflenwi grant cyfleusterau anabledd. Yn ogystal, mae perfformiad wedi dangos cynnydd bach ar gyfer 2011/12 (Tabl 17).

Tabl 17





Chwartzel	Safle	Tuedd	2009/10	2010/11	2011/12
Canol uchaf	10	I fyny	386.74	309.93	309.05

Gwasanaethau Gofal



Mae gofalu am bobl oedrannus a bregus yn y gymuned yn gyfrannwr pwysig arall tuag at sicrhau cymdeithas iach, ddiogel a theg. Mae gan yr awdurdod ganlyniadau cymysg yn yr ardal hon. Tra bo'r gyfradd o bobl a gefnogir yn y gymuned (Tabl 18) wedi gwella o 74.86 yn 2010/11 i 82.37 yn 2011/12, mae'r gyfradd o bobl hŷn a gefnogir mewn cartrefi gofal yn dal yn chwartzel isaf perfformiad ar gyfer 2011/12 sy'n dangos cynnydd bach yn y gyfradd ynghyd â thuedd cyffredinol am i lawr (Tabl 19). Mewn cyfeiriadau diogelu oedolion, lle'r oedd y risg wedi'i reoli, mae Ynys Môn wedi'i roi yn y 4^{ydd} safle ledled Cymru (Tabl 20) gan godi'n sylweddol o 89% yn 2010/11 i dros 95% yn 2011/12.

Tabl 18





Chwarterl	Safle	Tuedd	2009/10	2010/11	2011/12
Uchel canolig	8	I fyny	84.90	74.86	82.37

Tabl 19



Tabl 20




Mae sicrhau iechyd a diogelwch plant o'r pwys mwyaf i Ynys Môn, a bu gwelliant amlwg mewn rhai meysydd darpariaeth yn y sir.

Gellir tanlinellu hyn i ymateb y cyngor i Adroddiad AGGCC (tud 49) gwaith a wnaethpweyd gan Fwrdd Gwella y Gwasanaeth Plant, ailstrwythuro'r Tîm Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, a phenodi Pennaeth Gwasanaethau Plant a Mae y gweithredu hyn wedi dechrau rhaglen o newid diwylliannol i rymuso'r gweithlu ac i alluogi delio â materion o ran rheoli perfformiad.



Bu cynnydd o 5% yn y lleoliadau plant a ddechreuodd gyda chynllun gofal yn ei le rhwng 2010/11 a 2011/12 (Tabl 21). Yn yr un modd, daeth Ynys Môn yn ail ledled Cymru ar gyfer asesiadau cychwynnol a wnaed pan welwyd plentyn gan weithiwr cymdeithasol (Tabl 22). Mae'r tuedd cyffredinol cadarnhaol mewn gwasanaethau plant wedi'i adlewyrchu ymhellach yn Nhablau 23 a 24 lle gwelir bod Ynys Môn yn y chwarter uchaf o berfformiad ar gyfer plant fu'n derbyn gofal yn flaenorol nad oeddynt yn byw mewn llety brys ac a oedd wedi'u hymgysylltu mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Tabl 21





Chwarter	Safle	Tuedd	2009/10	2010/11	2011/12
Isel canolog	15	I lawr	97.92	85.19	90.38


Tabl 22



Tabl 23



Tabl 24



Gweithgaredd Rheoleiddiol

Yn ystod 2011/12, arolygwyd Gwasanaethau Plant y Cyngor gan ein rheolydd, Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Cymru, ar ddau faes –

- Arolwg Diogelu Plant
- Arolwg o'r trefniadau ar gyfer rheoli asesu a gofal plant mewn angen ym Môn

Cynhaliwyd arolygiad o drefniadau ar gyfer asesiadau a rheoli gofal plant mewn angen adroddiad ym mis Mai 2011. Mewn ymateb mae'r Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Gwella Plant aml-asiantaeth gyda thîm asesiad allanol annibynnol yn eu lle i yrru'r daith tuag at welliant parhaus ar y cyd. Trwy'r Bwrdd, mae'r Gwasanaeth Plant hefyd wedi ymgorffori canfyddiadau'r arolygon uchod yn eu Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth ar gyfer 2012/13. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i gymryd perchnogaeth gorfforaethol dros faterion cysylltiedig ac i drosglwyddo materion sy'n gofyn am gamau unioni i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Bwrdd Gwelliant a Chynaliadwyedd sefydlwyd gan y Comisiynwyr .

BLAENORIAETH STRATEGOL 4 – GWASANAETHAU EFFEITHIOL A FFORDDIADWY

Mae elfennau o fewn y flaenoriaeth strategol hwn yn ein galluogi i lunio barn ynghylch a ydym wedi llwyddo yn ein Blaenoriaeth Gwella o fod yn fwy effeithiol. Mae sicrhau atebolrwydd personol, gan weithio ar y cyd yn radical er mwyn moderneiddio'r ffordd rydym yn gweithio, gwireddu ein rhwymedigaethau statudol ac ein dyhead i fod yn fodel cyflogwr oll yn sicrhau bod ein meddylfryd busnes wedi datblygu dros y flwyddyn ac yn darparu sylfaen gadarn i adeiladu arni ar gyfer y yn y dyfodol.

Adnabwyd y flaenoriaeth hon gan y Comisiynwyr fel un o bileri allweddol ar gyfer gwella o dan eu stiwardiaeth ac mae ei wireddu yn cynorthwyo i wella delwedd y Cyngor yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. O ganlyniad, mae tystiolaeth o gynnydd yn cael ei nodi o dan ein blaenoriaeth terfynol (tud 62).

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn sicrhau atebolrwydd personol am berfformiad

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- Trwy ddatblygu a mireinio Fframwaith Rheoli Prosiect, Rheoli Risg a Rheoli Perfformiad a Chylch Rheoli Perfformiad Chwarterol

Yr hyn a wnaethom

- Datblygwyd a chyflwynwyd Fframwaith Rheoli Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad (FfRhCCPh) sydd bellach yn cynnwys yr angen i bob gwasanaeth gynnal Adolygiad Gwasanaeth Blynyddol (AGB);
- Trained 31 members of staff trained on YMPM (to module 4);
- Cyflwyno Hyfforddiant Corfforaethol Cofrestr Risg i Uwch Swyddogion a sicrhau fod materion capasiti a mwy o fuddsoddi mewn Gwasanaethau Corfforaethol yn cael eu hasesu. Mae gan y holl wasanaethau cofrestri risg erbyn hyn sy'n bwydo i mewn i ddatblygu Cofrestr Risg Gorfforaethol sy'n tynnu sylw at y risgiau corfforaethol allweddol y mae'r Cyngor yn wynebu
- Wedi trefnu, gweinyddu a chefnogi'r cylch Monitro Perfformiad Chwarterol i alluogi Arweinyddion / Aelodau a Chomisiynwyr i nodi yn lle yr oedd angen camau unioni corfforaethol sylweddol;
 - Wedi cyflwyno monitro arferion Rheoli Risg i gyfansoddiad monitro perfformiad chwarterol.

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn croesawu cydweithio i ddatblygu modelau gwasanaeth amgen

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- Trwy ddatblygu trefniadau cydweithredol ar draws Gogledd Cymru, Cymru, y DU ac Ewrop
- Trwy drafod a chytuno ar fframwaith ar gyfer integreiddio Strwythurau Rheoli ar gyfer darparu Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn Ynys Môn a Gwynedd;
- Trwy drafod a chytuno ar fframwaith ar gyfer gweithio ar y cyd yn y maes Rheoli Adeiladu yn Ynys Môn a Gwynedd

Yr hyn a wnaethom

- Gwasanaethau Iechyd Meddwl - gweithio i ddatblygu partneriaeth gyda'r Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru a BCHUB i ddarparu cysondeb
- Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion) parhau i weithio gyda'r Bartneriaeth Ganolfan Asesu (ar y cyd â Chonwy, Sir Ddinbych, a Gwynedd).
- Gweithio gyda chydweithwyr yng Nghyngor Gwynedd a phartneriaid eraill er mwyn cyfrannu'n briodol at y gwaith o ddarparu Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS)
- Ynghyd â'r 5 awdurdod lleol arall Gogledd Cymru sydd yn ffurfio y Gwasanaethau Cydweithio Gwella Partneriaethol, datblygu Canolfan Comisiynu Rhanbarthol ar gyfer lleoliadau preswyl arbenigol ar gyfer Plant
- Partner allweddol yn y bartneriaeth Gwasanaethau Plant Arbenigol sefydledig - sy'n darparu gwasanaethau o'r Awdurdod Iechyd a'r Awdurdod Lleol ar gyfer plant ag anableddau
- Panel Tai Fforddiadwy - cydweithio â'n partneriaid - gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Ymgynghorwyr Morgeisi a Gwerthwyr Tai Lleol - i alluogi pobl i brynu eu heiddo eu hunain
- Cymryd rhan weithredol a chydweithio gyda Gwasanaethau Cyfreithiol Gogledd Cymru
- Datblygu cynllun cymhwysedd arfarnu corfforaethol ar y cyd gyda Chynghorau Conwy a Sir Ddinbych
- Sefydlwyd gweithgor ym mis Chwefror 2012 yn cynnwys cynrychiolwyr o'r 6 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru sydd yn datblygu achos busnes amlinellol ar gyfer darparu Strwythur Rheoli Cludiant Rhanbarthol.
- Diogelwch ar y ffyrdd - gweithio mewn partneriaeth parhaus gyda Partneriaeth Diogelwch Gwynedd a Môn, Partneriaeth Diogelwch Gogledd Cymru ar ymgyrchoedd penodol gyda'r Heddlu, y gwasanaeth tân a'r gwasanaeth ambiwlans
- Gwaith ar y cyd yn dda ar y Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru, a gwaith yn mynd rhagddo hefyd ar y Compact Priffyrdd
- Sefydlu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd gyda Gwynedd
- Cymeradwyo sefydlu Gwasanaeth Gwella Ysgol yng Ngogledd Cymru
- Sefydlu Phartneriaeth Cynllunio Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru gyda 7 Awdurdodau Cynllunio Lleol Gogledd Cymru a Gogledd Powys
- Integreiddio Gwasanaeth Sengl Diogelu'r Cyhoedd ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd wedi symud ymlaen at y pwynt bod

gweledigaeth a strwythur newydd ar y cyd wedi cael ei gytuno. Mae ymgynghorydd ar hyn o bryd yn paratoi achos busnes a bydd y Cynghorau hefyd yn ystyried ac yn penderfynu pa awdurdod fydd yn arwain.

- Gwnaed cynnydd ar waith partneriaethau allweddol a chreu Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd gyda Gwynedd

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn moderneiddio'n radical y modd yr ydym yn gweithio i wella gwasanaethau, sicrhau gwerth am arian a chwrdd â disgwyliadau'r gymuned a'n dinasyddion

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- Trwy gydgyssylltu, hwyluso a monitro'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy
- Trwy ddatblygu a monitro prosesau cynllunio busnes y Cyngor drwy ddulliau technegol a rheolaethol
- Trwy sefydlu yn gadarn fenter rheoli prosiect a rheoli risg i dracio a rheoli'r modd y datblygir prosiectau ledled y Cyngor
- Trwy sefydlu swyddogaeth 'Sgriwtini' y Cyngor a'r gwaith Tasg a Gorffen fel bod hynny'n cael effaith ar y modd y darperir barn leol ar ddarparu gwasanaethau

Yr hyn a wnaethom

- Cyflwyno rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy corfforaethol (RhBF). Er bod y rhan fwyaf o'r arbedion wedi eu cyflawni yn unol â'r amcanestyniadau, roedd diffyg
- Cynllun Busnes Corfforaethol 2012-2015 – sefydlwyd yn dilyn proses ymgysylltu gynhwysfawr a ymgwymerodd â barnau dinasyddion / partneriaid / Swyddogion / Aelodau a Chomisiynwyr
- Lluniwyd Cynllun Gwella oedd yn edrych yn ôl (Adolygiad Perfformiad) yn ôl yr amserlen statudol a gofynion rheoleiddiol
- Ymgwymerwyd ag arolwg dinasyddion i nodi blaenoriaethau dinasyddion ar gyfer y 3 blynedd i ddod
- Datblygu a chyflwyno ymhellach Ffynnon – System Rheoli Perfformiad Cymru Gyfan i gefnogi'r agenda Rheoli Perfformiad Corfforaethol
- Cymeradwywyd 90% o argymhellion/adroddiadau Sgriwtini
- Ymgysylltodd 319 o'r cyhoedd â'r broses Sgriwtini yn ystod 2011/12

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn gwneud ein gorau i fod yn gyflogwr da

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- Trwy rymuso Rheolwyr i wneud penderfyniadau sydd wedi eu dirprwyo iddynt a'u gwneud yn atebol am eu perfformiad
- Trwy weithredu'r fenter bellach i reoli newid, sef Ethos Môn i gychwyn ar y broses o newid diwylliant

Yr hyn a wnaethom

- Daliwyd rheolwyr i gyfrif am eu perfformiad trwy gyfarfodydd Monitro Perfformiad Chwarterol a Sgriwtini. Mae monitro Cynlluniau Cyflenwi Gwasanaeth drwy Ffynnon bellach yn ran allweddol o'r cyfarfodydd. Mae Adolygiadau Gwasanaeth Blynyddol bellach yn rhan o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad Newydd;
- Datblygu prosiect rheoli newid Ethos Mon i sefyllfa lle bydd angen ei fabwysiadu yn gorfforaethol gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth sydd newydd ei ffurfio, a fydd wedyn yn ffurfio rhan o'r rhaglen datblygu sefydliadol fydd yn gael ei datblygu yn ystod 2012/13;

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn rheoli adnoddau mewn modd effeithiol ac yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda'i ofynion statudol

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- Trwy wella ein trefniadau monitro ariannol ar lefel corfforaethol ac ar lefel gwasanaethau
- Trwy nodi a manteisio'n strategol ar gyfleoedd i leihau cyfrifoldebau'r awdurdod o safbwynt cynnal a chadw stad mân-ddaliadaethau a sicrhau derbyniadau cyfalaf ychwanegol mewn perthynas â'r stad
- Trwy dargedu derbyniadau cyfalaf ac arbedion refeniw i leihau cyfrifoldebau o safbwynt cynnal a chadw ac ychwanegu at yr arian sydd ar gael i gynnal a chadw'r stoc gyfredol
- Trwy leihau'r defnydd o ynni yn adeiladau'r Cyngor
- Trwy gynnal a chadw priffyrdd i safon ddiogel

Yr hyn a wnaethom

- Gwelliannau i fonitro ariannol wedi ei gyflawni, gyda strwythur adrodd a herio wedi'w aleinio â'r trefniadau monitro perfformiad chwarterol
- Cychwynnodd y rhaglen wella mân-ddaliadaethau dros 4 blynedd yn ôl yn 2010 ac rydym hanner ffordd drwyddi. Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen i fonitro cynnydd gyda gwaith a gwerthiannau. Mae 14 Cynllun wedi'u cwblhau hyd yma ar gost o £2m;
- Roedd y derbyniadau cyfalaf a godwyd yn 2011/12 yn £842k. Roedd yr arbedion yn y gofynion cynnal a chadw a nodwyd drwy werthu eiddo yn £158k. Nifer y safleoedd a werthwyd (ac eithrio Tai) oedd 11 (heb gynnwys safle Penyrsedd);
- Cyflwynwyd ceisiadau ar gyfer prosiectau gwarchod ynni ond ni ddyrannwyd cyllid. Cynhaliwyd gwaith i osod goleuadau ynni isel mewn rhannau o brif swyddfeydd y cyngor;
- Mabwysiadwyd Polisi Diogelwch Priffyrdd a hierarchaeth ffyrdd diwygiedig mewn perthynas â Chod Ymarfer Priffyrdd Sydd Wedi'u Cynnal yn Dda, cofnodi a datrys diffygion Categori 1 (o fewn 24 awr) a diffygion Categori 2 (o fewn 28 diwrnod) yn defnyddio'r Gangiau Cymunedol (gangiau ymateb cyflym);
- Mae'r ysgubor halen yn y Gaerwen wedi'i ymestyn fel bod ei gapasiti wedi'i gynyddu o 3800 tonnelli i 5500 tonnelli

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn ceisio sicrhau'r lefelau cyllid uchaf posib gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i ecwiti

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- Trwy wneud gwaith cydlynu a monitro i sicrhau bod y Cytundebau Canlyniadau sy'n gysylltiedig â rhaglenni gwaith yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus a datblygu cydweithio mewn meysydd pellach

Yr hyn a wnaethom

- 2011-12, oedd yr ail flwyddyn o raglen dair blynedd ar gyfer cyflwyno'r Cytundeb Canlyniadau (CC) a cytunwyd rhwng y cyngor a Llywodraeth Cymru (LIC). Cyflwynwyd y CC gan WG i gymryd lle'r Cytundebau Gwella a ddaeth i ben ym Mawrth 2010. Mae'r cytundeb cychwynnol yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2010 i 31 Mawrth 2013.
- Yn unol â hyn, bydd y Grant CCyn disodli'r Grant Cytundeb Gwella a'r trefniadau a nodir gan WG yn dangos y bydd lefel y grant gael ei dalu pro rata yn ôl lefel y cyflawniad yn erbyn canlyniadau a nodwyd. Mae'r dyraniad grant llawn yn werth tua £ 743M yn flynyddol ar gyfer cyflwyno yn llwyddiannus yr holl gamau gweithredu a mesurau o dan bob un o'r deg CC
- Unwaith eto, mae ein hunanasesiad cychwynnol o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn bresennol yn rhoi i ni ddim ond 75% o gyllid grant posibl ar gyfer 2011/12 (mae hyn yr un fath â hynny ar gyfer 2010/11).

- Er ein bod wedi cyflawni'r mwyafrif helaeth o'n canlyniadau a thargedau ar draws y rhan fwyaf o'r Cytundeb Canlyniadau, mae rhai diffygion mewn lleiafrif fel nodwyd yn ein hunan-asesiad isod.
- Ar adeg cyhoeddi, nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o ganlyniad terfynol asesiad ffurfiol yr ail flwyddyn a maint y dyraniad grant.

Cytundeb Canlyniadau	Camau a Bennwyd	Camau a Gyflawnwyd	Mesurau a Bennwyd	Mesurau a Gyflawnwyd
CC1	11	11	14	8 (+2 diffyg bychan)
Thema LICC: <u>Bywyd Hirach o Well Ansawdd a Chanlyniadau Tecach i Bawb</u>				
Blaenoriaeth CSYM: Gwell Iechyd trwy gydol oes				
Cytundeb Canlyniadau	Camau a Bennwyd	Camau a Gyflawnwyd	Mesurau a Bennwyd	Mesurau a Gyflawnwyd
CC2	4	3	10	3 (+ 3 diffyg bychan)
Thema LICC: <u>Mae Gofal Cymdeithasol Da yn Golygu bod Pobl yn Mwynhau Bywyd o Ansawdd Gwell</u>				
Blaenoriaeth CSYM: Darparu cefnogaeth fel y gall pobl fyw'n annibynnol				
Cytundeb Canlyniadau	Camau a Bennwyd	Camau a Gyflawnwyd	Mesurau a Bennwyd	Mesurau a Gyflawnwyd
CC3	9	9	9	4
Thema LICC: <u>Mae Economi Gref a Llewyrchus o Gymorth i Leihau Tlodi</u>				
Blaenoriaeth CSYM: Llai o Bobl yn Byw mewn Tlodi				
Cytundeb Canlyniadau	Camau a Bennwyd	Camau a Gyflawnwyd	Mesurau a Bennwyd	Mesurau a Gyflawnwyd
CC4	6	6	7	6 (+1 diffyg bychan)
Thema LICC: <u>Plant a Phobl Ifanc yn Tyfu i Fyny i fod yn Ddinasyddion Gweithgar a Sicrhau'r Safonau Uchaf Posibl o ran Lles</u>				
Blaenoriaeth CSYM: Bod ag Amrediad Cynhwysfawr o Gyfleoedd Addysg a Dysgu				
Cytundeb Canlyniadau	Camau a Bennwyd	Camau a Gyflawnwyd	Mesurau a Bennwyd	Mesurau a Gyflawnwyd

CC5	6	6	10	I'w gadarnhau
Thema LICC: <u>Bod gan Bobl yr Addysg a'r Sgiliau i Fyw Bywydau Ffyniannus a Bodlon</u>				
Blaenoriaeth CSYM: Gwella Cyraeddiadau Addysgol				
Cytundeb Canlyniadau	Camau a Bennwyd	Camau a Gyflawnwyd	Mesurau a Bennwyd	Mesurau a Gyflawnwyd
CCA6	8	7	7	5
Thema LICC: <u>Bod Cymunedau yn Ffynnu ac yn Ddiogel a bod Ganddynt Fynediad i Dai Da a Chludiant Cynaliadwy</u>				
Blaenoriaeth CSYM: Llai o Ddigartrefedd				
Cytundeb Canlyniadau	Camau a Bennwyd	Camau a Gyflawnwyd	Mesurau a Bennwyd	Mesurau a Gyflawnwyd
CC7	6	5	5	5
Thema LICC: <u>Bod Cymru yn Gymdeithas sy'n Defnyddio Ynni'n Effeithiol yn Gymdeithas Carbon Isel ac yn Gymdeithas Gwastraff Isel</u>				
Blaenoriaeth CSYM: Effeithlonrwydd Gwastraff ac Adnoddau Naturiol				
Cytundeb Canlyniadau	Camau a Bennwyd	Camau a Gyflawnwyd	Mesurau a Bennwyd	Mesurau a Gyflawnwyd
CC8	5	5	9	7 (+ 1 diffyg bach)
Thema LICC: <u>Bod yr Amgylchedd yn cael ei Diogelu ac yn Gynaliadwy</u>				
Blaenoriaeth CSYM: Gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol a'r mwynhad ohono				
Cytundeb Canlyniadau	Camau a Bennwyd	Camau a Gyflawnwyd	Mesurau a Bennwyd	Mesurau a Gyflawnwyd
CC9	4	4	6	6
Thema LICC: <u>Bod ein Hiaith, ein Diwylliant a'n Treftadaeth yn Ffynnu</u>				
Blaenoriaeth CSYM: Bod mwy o Bobl yn Mynychu ac yn Cymryd Rhan mewn Gweithgareddau Celfyddydol a Diwylliannol a'r Amgylchedd Hanesyddol				
Cytundeb	Camau a	Camau a	Mesurau a	Mesurau a Gyflawnwyd

Canlyniadau	Bennwyd	Gyflawnwyd	Bennwyd	
CC10	5	5	4	3
Thema LICC: <u>Bod Gwasanaethau Cyhoeddus yn Effeithlon ac yn Darparu Gwerth am Arian</u>				
Blaenoriaeth CSYM: Gwell Trefniadau Rheoli Asedau				
Yr Holl Gytundebau Canlyniadau	Yr Holl Gamau a Bennwyd	Yr Holl Gamau a Gyflawnwyd	Yr Holl Fesurau a Bennwyd	Yr Holl Fesurau a Gyflawnwyd
Total	64	61	81	47 (heb gynnwys diffyg bychan a 10 arall lle disgwylir canlyniadau)

A ydym wedi gwneud gwahaniaeth yn Lleol?

Nodir isod y dangosyddion hynny a ddefnyddiwyd i ddangos effaith a dilysrwydd y canlyniad hwn.

GWASANAETHAU EFFEITHIOL A FFORDDIADWY	Gwirioneddol 2010/11	Targed 2011/12	Gwirioneddol 2011/12	Statws CMG
Derbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu eiddo nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach	£872k	£1miliwn	£842k	
Cyhoeddi Cynllun Busnes Corfforaethol 2011/12	Gorffennaf 2010	Mai 2011	Mai 2011	
% y prif ffyrdd (A) sydd mewn cyflwr gwael	3.91%	% i'w gadarnhau	4.2%	
% o argymhellion Sgrwtini a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith	Heb ei gasglu	90%	90%	

Sefydliad sy'n cael ei yrru gan y cwsmer		Arolwg cyfranddeiliaid wedi'i gwblhau	Wedi'i gwblhau	
Gwireddu Prosiectau'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy		£3.2M	£2.7m	

Gweithgaredd Rheoleiddiol

Adroddiad Gwella Blynyddol 2012 – Swyddfa Archwilio Cymru

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i wneud “cynnydd addawol o ran mynd i'r afael â gwendidau sydd wedi bodoli ers tro byd”, yn ôl Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ar 2il Chwefror 2012.

Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad fod y Cyngor yn mynd i'r afael â gwendidau yn ei brosesau cynllunio gwelliannau a gwerthusiad perfformiad. Fodd bynnag, mae gwendidau yn dod i'r amlwg mewn rhai gwasanaethau allweddol yn adlewyrchu tanwario blaenorol wrth ddatblygu capasiti rheoli ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth.

Roedd yr adroddiad yn gorffen gydag 1 argymhelliad a 4 cynnig ar gyfer gwella –

1. Dylai'r Cyngor wneud trefniadau sy'n galluogi'r Prif Weithredwr i ganolbwyntio ar:

- Arwain a datblygu'r Uwch Grŵp Arweinyddiaeth;
- Rheoli aelodau unigol yr Uwch Grŵp Arweinyddiaeth, eu dwyn i gyfrif am gyflawni agweddau penodol ar agenda'r Cyngor ar gyfer gwella llywodraethu; a
- Cynrychioli'r Cyngor yn allanol

2. Dylai'r Cyngor ddatblygu rôl rheolwyr canol fel eu bod:

- Gyda'i gilydd, yn rhoi adborth i uwch reolwyr am weithredu newid; ac
- Yn unigol a gyda'i gilydd, yn atebol am gyflawni newid yn weithredol yn y gwasanaethau maent yn eu rheoli

3. Dylai'r Cyngor sicrhau capasiti a gallu digonol yn ei wasanaethau cyllid, Adnoddau Dynol a TGCh er mwyn:

- Cyflawni'r swyddogaethau corfforaethol angenrheidiol sy'n gysylltiedig â phob un o'r gwasanaethau hyn i safonau gofynnol; a
- Darparu cymorth i wasanaethau eraill y Cyngor yn unol â safonau cytûn.

4. Dylai'r Cyngor:

- Bennu amcanion gwella penodol ar gyfer 2012-13 mewn modd sy'n ei alluogi i benderfynu ac adrodd ar ba un a lwyddwyd i'w cyflawni ai peidio; a
- Defnyddio'i ddadansoddiad o berfformiad 2011-12 er mwyn dysgu o'r hyn sydd wedi mynd yn dda a phenderfynu ac adrodd ar ba gamau sydd angen iddo'u cymryd i wella.

Er mwyn gweithredu ar y cynigion hyn ar gyfer gwella, bu'r Cyngor yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd a sefydlwyd gan Gomisiynwyr i ddarparu sicrwydd i'r Cyngor Sir bod y ffrydiau gwaith yn cael eu cyflawni'n gadarn er mwyn gwella trefniadau llywodraethu ac amcanion gwella allweddol.

Yn ychwanegol i'r adolygiad hwn, mae'r Cyngor hefyd wedi cynnal adolygiadau gan gymheiriaid drwy'r Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill ar faterion yn ymwneud â TGCh / Adnoddau Dynol a Chraffu, ac mae ar fin cymryd rhan mewn "Astudiaeth Gwella Craffu Cenedlaethol" (i gymryd lle ym mhob Cyngor yng Nghymru) , gydag adroddiad terfynol a ragwelir yn ystod mis Mawrth / Ebrill 2013, a fydd yn amlinellu argymhellion ar gyfer gwelliannau pellach yn y swyddogaeth Craffu.

Lle y bo'n bosibl, mae canfyddiadau'r astudiaethau adolygu cymheiriaid wedi cael eu hymgorffori drwy'r broses Cynlluniau Darparu Gwasanaeth a gwelliannau yn cael eu holrhain drwy'r trefniadau monitro perfformiad chwarterol.

BLAENORIAETH STRATEGOL 5 – GWELLA PROFFIL AC ENW DA Y CYNGOR A'R YNYS

Gellir dweud mai'r enw sydd gan sefydliad yw un o'i asedau pwysicaf. Dyna sy'n ffurfio barn cydranddeiliaid mewnol ac allanol yn gyffredinol am y sefydliad, a hynny'n seiliedig ar yr hyn a wnaeth yn y gorffennol a sut mae'n debygol o ymddwyn yn y dyfodol. Mae'r Cyngor Sir yn canolbwyntio ar wella eio enw da ac wedi gwneud hwn nw un o'n blaenoriaethau strategol allweddol. Mae'n hollbwysig i'r Cyngor a'r Ynys i'r dyfodol.

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn darparu ac yn datblygu trefniadau ymgysylltu gyda dinasyddion / cymunedau a phrosesau ymgysylltu ffurfiol o ran strategaethau ymgysylltu

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- Trwy sefydlu a gweithredu fframwaith cyfathrebu mewnol i ddylanwadu ar drefniadau cefnogaeth a phrosesau ar gyfer cyfathrebu mewnol ac i adeiladu a chynnal perthnasau da
- Trwy gyfathrebu mwy gyda chynulleidfaoedd allweddol wyneb yn wyneb ar lefel gymunedol
- Trwy ddefnyddio'r cyfryngau sefydledig yn effeithiol i hyrwyddo gweithgareddau'r Cyngor a chryfhau'r defnydd o frand y Cyngor i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'i wasanaethau
- Rhoi Cynllun Gweithredu ar waith ar gyfer Ymgysylltu gyda Dinasyddion a Chymunedau
- Trwy sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael am y Cyngor ar y we
- Trwy ddatblygu strategaeth Ymgysylltu gyda Dinasyddion a Chymunedau a Strategaeth Gyfathrebu

Yr hyn a wnaethom

- Ym Medi 2011, cynhaliodd yr Awdurdod gyfres o sesiynau galw heibio cyhoeddus aer draws yr ynys o'r enw "Ein Hynys, Ein Cyngor, Eich Cyfraniad". Cynhaliwyd y digwyddiadau a ddarparwyd cyfle gwerthfawr i'r cyhoedd gael lleisio eu barnau ar flaenoriaethau'r Awdurdod ac i helpu i'w datblygu i'w cynnwys yng Nghynllun Busnes Corfforaethol 2012-15;
- Arolwg Preswylwyr - Mae hon yn fenter newydd a fydd yn dod yn rhan reolaidd o'r broses ymgysylltu. Yn Chwefror 2011 gwnaed arolwg o 1,100 o drigolion a cynhaliwyd pum grŵp ffocws ar draws Ynys Môn, pob un yn cynnwys rhwng 7-11 o gyfranogwyr. Mae'r arolwg a'r grwpiau ffocws yn rhoi tystiolaeth gynrychioliadol ar draws ystod o segmentau cymdeithasol (gan gynnwys rhyw, oedran, ethnigrwydd, anabledd, yr iaith Gymraeg a gradd gymdeithasol) ac ardaloedd daearyddol. Diben yr ymarfer hwn oedd cael barn y cyhoedd ar wasanaethau'r Cyngor a'r blaenoriaethau allweddol y mae angen mynd i'r afael a hwy yn y dyfodol. Gofynnwyd i'r trigolion hefyd a fyddent a diddordeb mewn cymryd rhan mewn ymarferion ymgysylltu ymhellach yn y dyfodol. Cafodd hyn ei ddilyn gan holiadur arall at y rhai a oedd wedi mynegi diddordeb, i gael gwybodaeth am y materion y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan ynddynt – cynnigwyd yn yr holiadur. Mae cronfa ddata o ymatebion preswlydd wedi cael ei chreu a bydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi ymgysylltu a threfniadau ymgynghori yn y dyfodol. Erbyn hyn mae gennym garfan o ryw 200 o drigolion sydd wedi mynegi diddordeb mewn cefnogi'r ymarferiadau yn rheolaidd.
- Parhaodd yr Uned Gyfathrebu i feithrin cysylltiadau gweithio da gydag aelodau o'r wasg a'r cyfryngau lleol a lluniwyd o leiaf tri datganiad i'r wasg bob wythnos oedd yn hyrwyddo storïau cadarnhaol am wasanaethau a gweithgareddau'r Cyngor;
- Cynhyrchodd yr Uned Gyfathrebu ddau rifyn o Newyddion Môn – papur cymunedol yr Awdurdod;
- Ymgwymerwyd â gwaith hefyd i hyrwyddo gwasanaethau'r Cyngor trwy Môn FM – gorsaf radio gymunedol sydd newydd ei lansio sy'n darlledu i drigolion yr Ynys;
- Parhaodd yr Uned Gyfathrebu i weithio gyda'r Tîm Graffeg Corfforaethol i ddarparu arweiniad a chefnogaeth i wasanaethau mewn perthynas â brandio corfforaethol;
- Yn ogystal, bellach, mae gan dudalen gorfforaethol Facebook (a lanswyd yn Ebrill 2011) bellach dros 300 o ddilynwyr sy'n derbyn diweddariadau ar y we ynghylch newyddion, gweithgareddau a gwybodaeth. Mae'r diweddariadau rheolaidd hyn yn cyfeirio "dilynwyr" yn ôl i'n gwefan gorfforaethol i gael rhagor o gyngor a gwybodaeth;
- Mae'r Uned Gyfathrebu yn parhau i ddatblygu'r wefan Facebook gorfforaethol – www.facebook.com/ioacc – gyda marchnata rhagweithiol gan gynnwys defnydd pellach o'r dechnoleg gymdeithasol newydd

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn canolbwyntio ar wella ein trefniadau Llywodraethu Corfforaethol ar sail barhaus gyda Chomisiynwyr yn adrodd yn chwarterol i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol


Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- Trwy hwyluso gweithrediad a monitro Rhaglen Gwella'r Cyngor drwy ymgynghori a'n rheoleiddwyr i adnabod meysydd o welliant
- Trwy sefydlu proses ymgynghori agored ar adroddiadau'r Comisiynwyr i'r Gweinidog ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, gyda Swyddogion, Undebau Llafur ac Aelodau
- Trwy gyhoeddi adroddiadau'r Comisiynwyr ar y we fel eu bod ar gael mewn modd agored a thryloyw ac er mwyn rhoi gwybodaeth i ddinasyddion a chymunedau
- Trwy wneud penderfyniadau 'cynllunio' o safon uchel mewn modd prydlon a thryloyw

Yr hyn a wnaethom

- Trwy broses o gynllunio cydweithredol roedd y Comisiynwyr / y Cabinet Cysgodol / Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a Sgriwtini ynghyd â'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol wedi nodi 10 thema allweddol i olrhain gwelliant llywodraethu corfforaethol o fewn y Cyngor. Nodir y themâu hynny fel a ganlyn -
 - - a. Gwella Perthnasau Gwleidyddol
 - b. Pwyllgor Safonau Effeithiol
 - c. Sgriwtini Effeithiol
 - d. Gwella Safonau Ymddygiad
 - e. Datblygu Uwch Dîm Rheoli ystyrion
 - f. Datblygu Blaenoriaethau'n Seiliedig ar Ganlyniadau
 - g. Gwella Perfformiad, Rheoli Risg a Phrosiectau
 - h. Cryfhau Gwasanaethau Corfforaethol
 - i. Ymgysylltu â'r Gymuned
 - j. Datblygu Partneriaethau Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol
 - Defnyddiwyd y themâu hyn fel y sail ar gyfer datblygu model asesu a gynllunnir i ddarparu asesiad gwrthrychol, yn seiliedig ar dystiolaeth o ba mor bell y mae'r Cyngor wedi symud yn ei flaen ar ei daith gwelliant.
 - Goruchwyliar y fframwaith asesu hwn gan Fwrdd Gwelliant a Chynaliadwyedd y Comisiynwyr ac fe'i hategir gan

wybodaeth am berfformiad sy'n caniatáu dod i farnau rhesymedig ynghylch cynnydd. Mae statws diwedd blwyddyn bob un o'r themâu allweddol hyn yn cael eu cyfleu isod -



- Fel y gellir gweld, mae'r asesiad yn dangos, er bod gwaith i'w wneud eto yn y tymor canol i hir, yn y tymor byr, gwnaed cynnydd sylweddol yn erbyn bob un o'r deg thema.
- Mae'r trafodaethau parhaus gyda Swyddfa Archwilio Cymru wedi profi i fod yn sail dda ar gyfer cysoni gweithgareddau SAC a'r Comisiynwyr wrth wella llywodraethu corfforaethol. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda CLILC ac Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru i wella ansawdd a chysondeb data perfformiad.
- Mae'r Comisiynwyr wedi mynd â'u hadroddiadau chwarterol i'r Cyngor Llawn ac wedi sicrhau y byddant ar gael yn eang i ddinasyddion, staff Aelodau ac Undebau www.ynysmon.gov.uk <<http://www.anglesey.gov.uk/>>
- Ar ôl eu cytuno gan y Gweinidog, bu'r adroddiadau ar gael gan y Cyngor ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan y Cyngor fel ei fod ar gael ar gyfer dinasyddion, aelodau staff a chyfranddeiliaid eraill.

- Mae Bwrdd Gwella a Chynaliadwyedd y Comisiynwyr bellach yn gweithio'n dda i fynd i'r afael â materion strategol ac mae'n gweithredu gydag ymrwymiad llawn gan Aelodau ac uwch swyddogion.
- Gweithredwyd Cynllun Gwella Gwneud Penderfyniadau Cynllunio 2010-12

Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud – Byddwn yn darparu arweinyddiaeth gref i ddinasyddion a chymunedau i gwrdd ag anghenion yr Ynys

Sut y dywedasom y byddem yn ei wneud

- Trwy baratoi, mewn cydweithrediad gyda phartneriaid allweddol yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat, Cynllun Cymunedol diwygiedig ar gyfer Ynys Môn am y cyfnod 2012-2025 fydd yn sylfaen i Gynlluniau Corfforaethol a Chyllidebol ar gyfer 2015/15

Yr hyn a wnaethom

- Dechreuwyd ar y gwaith o greu Cynllun integredig Sengl ar gyfer Mon drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol
- Crëwyd Fframwaith Ymgysylltu â'r Gymuned i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol ac i ymgysylltu â dinasyddion ar lefel aml-asiantaeth;
- Parhau i weithio ar Siarter i hyrwyddo cydweithrediad effeithiol gyda Chynghorau Tref a Chymuned;
- Gweithio gyda Llu Awyr y Fali a'r trydydd sector i greu Cyfamod Cymunedol i hyrwyddo gwaith partneriaeth;
- Mae angen gwneud rhagor o waith i adolygu'r Compact Sector Gwirfoddol;
- Bu sesiynau ymgysylltu â'r gymuned yn rhannol lwyddiannus. Bydd angen i'r model diwygiedig ddefnyddio rhwydweithiau presennol;
- Sefydlwyd Bwrdd Menter Ynys Môn cyhoeddus / preifat ar y cyd i ddarparu arweinyddiaeth ar gyfer adfywio'r Ynys.

A ydym yn gwneud gwahaniaeth yn Lleol?

Er mwyn dangos fod y gwaith a wneir gennym fel Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau ein dinasyddion a hefyd yn dangos i bartneriaid ein bod yn ystyried eu barnau a'u pryderon, rydym wedi nodi dangosyddion perthnasol i'n helpu i fonitro ac adrodd ar b'un a yw ein hymdrechion yn gwneud gwahaniaeth o ran ein henw da (**Tabl E**).

Tabl E- GWELLA PROFFIL AC ENW DA Y CYNGOR A'R YNYS	Gwirioneddol 2010/11	Targed 2011/12	Gwirioneddol 2011/12	Statws CMG
Cynnydd yn y % o'r Rhaglen Adfer Gorfforaethol a gwblhawyd	83%	100%	100%	
% o geisiadau cynllunio y penderfynir arnynt cyn pen 8 wythnos	66%	75%	75%	
% o'r bobl sy'n fodlon gyda'r ffordd y mae'r Cyngor yn rhedeg yr Ynys		% gwaelodlin wedi'i nodi	40%	
% o'r bobl sy'n credu bod safon gwasanaethau'r Cyngor yn dda ar y cyfan		% gwaelodlin wedi'i nodi	76%	
% o'r bobl sy'n credu bod y Cyngor yn rhoi gwerth da am arian i'r trigolion		% gwaelodlin wedi'i nodi	36%	
% o'r bobl sy'n fodlon gyda'r lefelau o wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu		% gwaelodlin wedi'i nodi	61%	
Cyhoeddi'r Cynllun Integredig newydd		erbyn Mawrth 31 ^{ain} , 2012	Adolygwyd i Ebrill 2013	
Sefydlu Gwasanaeth e-ddeisebu ac e-ddemocratiaeth		Cwblhau a lansio	I'w symud ymlaen 2012/13	

Dangosyddion Perfformiad

Tra defnyddiwyd rhai mesurau i ddangos cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau strategol, o dan y Fframwaith Mesur Perfformiad a gyflwynwyd yn Ebrill 2005, mae'n bob cyngor yng Nghymru yn y gorffennol wedi casglu a rhannu data ar gyfer Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSCau) a Dangosyddion Strategol Craidd (DSCau) o dan bob maes gwasanaeth. Yn dilyn adolygiad o'r ymagwedd bresennol, cyflwynwyd Fframwaith Gwella Perfformiad newydd o Ebrill 2011 ymlaen.

Mae'r fframwaith newydd yn canolbwyntio ar ddau faes gwahanol, sef:

- Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus – sy'n darparu mesurau ar gyfer atebolrwydd cyhoeddus; a
- Data Gwella Gwasanaethau – datblygu setiau data ystyrlon i wasanaethau a'u rheoleiddwyr eu defnyddio i gefnogi gwelliant gwasanaethau.

Mae'r **Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus** (MAC'au) yn cynnwys set fach o ddangosyddion a'u ffocws ar ddeilliannau, a ddewiswyd i ddechrau o oddi mewn i'r Fframwaith Mesur Perfformiad presennol. Maent yn adlewyrchu'r agweddau hynny ar waith awdurdodau lleol y mae awdurdodau yn cytuno eu bod yn bwysig o ran atebolrwydd cyhoeddus. Er enghraifft, ailgylchu, cyrhaeddiad addysgol, datblygiad cynaliadwy ac yn y blaen. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu a'i hadrodd yn genedlaethol, ei dilysu, a'i chyhoeddi'n flynyddol.

Mae **Data Gwella Gwasanaethau** (DGG) yn gallu cael eu defnyddio gan wasanaethau awdurdodau lleol a'u rheoleiddwyr wrth iddynt gynllunio, cyflwyno a gwella gwasanaethau. Mae'r setiau data hyn yn cael eu diffinio gan awdurdodau lleol yn ôl angen a gwerth, a chaiff y data ei goladu'n ganolog a'i rannu o fewn y gymuned llywodraeth leol er mwyn cefnogi gwelliant gwasanaethau.


Mae Gweinidogion Cymru yn dal i bennu **Dangosyddion Statudol Cenedlaethol** (DSC'au). Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i gasglu'r rhain ac adrodd arnynt yn flynyddol.

Bydd y data yn y dadansoddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar MAC'au a Dangosyddion Strategol Cenedlaethol er mwyn galluogi cymharu perfformiad yn erbyn awdurdodau lleol eraill, ond rydym wedi darparu asesiad cyffredinol o'r holl ddangosyddion perfformiad ein (gan gynnwys DGG) yn Nhablau 1 a 2 (isod). Mae'r holl Dangosyddion Perfformiad yn cael eu defnyddio yn rheolaidd ar gyfer monitro mewnol o berfformiad drwy'r Cyfarfodydd Monitro Perfformiad Chwarterol a byddent o yn rhan strategol o'r Adolygiadau Gwasanaeth Blynyddol o 2012 ymlaen


Sut y gwnaethom berfformio yn 2011/12?

Roedd y darlun cyffredinol o ran ein dangosyddion perfformiad (DP) – sy'n cynnwys MAC'au, DGG'au a DSC'au – yn weddol gadarnhaol yn 2011/12. Mae'r tuedd (Tabl 1) yn dangos bod 57% o'n holl DPau wedi gwella yn 2011/12 gyda 11% heb newid gyda 30% yn dirywio. Yn nhermau'r safle o ran chwarteli (Tabl 2) mae 39% o'n DPau yn y chwartel uchaf, 40% yn y chwarteli canol a 21% yn y chwartel isel. Mae Tablau 3, 4 a 5 yn darparu dadansoddiad tebyg yn defnyddio data ar gyfer MACau ac DSCau yn unig – y setiau data y mae rhaid i bob cyngor eu cyhoeddi ac sy'n darparu'r sail ar gyfer meincnodi a chymariaethau yn erbyn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Unwaith eto, gwellir gweld fod y darlun yn weddol gadarnhaol, ac yn dangos gwelliant mawr rhwng 2010/11 a 2011/12 o ran y cynnydd yn nifer y DPau yn y chwartel uchaf ynghyd â gostyngiad tebyg yn niferoedd y DPau yn y chwartel isaf.

Tabl 1 – Pob DP




Tabl 2 – Pob DP




Tabl 3 (DSE/MAC)

Crynodeb o berfformiad y maes
2011-12




Tabl 4 (DSE/MAC)

Nifer y DP yn ôl blwyddyn ym mhob chwarter



Tabl 5 (DSE/MAC)

Nifer y DP fel chwarter yn ôl blwyddyn



Mae dadansoddiad manylach o'r wybodaeth graidd ar lefel adrannol a gwasanaeth yn creu'r darlun a ganlyn ar draws bob un o'n Dangosyddion Perfformiad:-

Tabl 6 – Pob DP ar lefel Cyfadran/Gwasanaeth

Perfformiad Cyngor Sir Ynys Môn		Safle Chwarteli 2011/12				Newid DP ers 2010/11			
		Chwartel Uchaf	Canolrif Uchaf	Canolrif Isaf	Chwartel Isaf	Wedi Gwella	Dim Newid	Dirywiad	Dangosydd Newydd
Gwasanaethau Oedolion	11	2	3	3	3	5	0	6	0
Gwasanaethau Plant	47	21	7	12	7	28	5	13	1
Tai	14	3	5	3	3	7	0	5	2
Hamdden a Diwylliant	6	0	2	2	2	5	0	1	0
Gwasanaethau Cymunedol	78	26 (33%)	17 (22%)	20 (26%)	15 (19%)	45 (58%)	5 (6%)	25 (32%)	3 (4%)
Dysgu Gydol Oes	19	10	2	3	4	9	5	5	0
Dysgu Gydol Oes	19	10 (53%)	2 (11%)	3 (16%)	4 (21%)	9 (48%)	5 (26%)	5 (26)	0 (0%)
Prifffyrdd a Rheoli Gwastraff	18	6	1	3	8	9	1	8	0
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	23	12	7	3	1	16	4	3	0
Eiddo	1	0	0	0	1	0	0	1	0
Datblygu Cynaliadwy	42	18 (43%)	8 (19%)	6 (14%)	10 (24%)	25 (59%)	5 (12%)	12 (29%)	0 (0%)
Cyfanswm Cyngor Sir Ynys Môn	139	54 (39%)	27 (19%)	29 (21%)	29 (21%)	79 (57%)	15 (11%)	42 (30%)	3 (2%)

Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw beth yn yr Adolygiad Perfformiad hwn, neu i wneud unrhyw sylwadau, cysylltwch â'r Cyngor os gwelwch yn dda, fel yr amlinellir isod:

Huw Jones
Pennaeth Gwasanaeth – Polisi
Swyddfa'r Rheolwr Gyfarwyddwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

☎ - 01248 752108 neu 01248 752111
✉ - jhjce@ynysmon.gov.uk neu grmce@ynysmon.gov.uk

Mae'r Adolygiad hwn ar gael ar wefan y Cyngor:
<http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-llywodraethu/cynllunbusnes-corfforaethol>

Yn ogystal, mae rhagor o wybodaeth ar:

Mae'r **polisiau, cynlluniau a strategaethau** a gyhoeddwyd gan y Cyngor ar gael ar: <http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/dogfennaur-cyngor/>

Cynlluniau Busnes – cysylltwch os gwelwch yn dda â nexce@ynysmon.gov.uk

Mae **Llythyr Blynyddol y Rheolwr Cydberthnasau** ar gael ar wefan y Cyngor trwy glicio ar y linc yma:

<http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-allywodraethu/asesiadau-allanol>

Mae **adroddiadau archwilio ac arolygon** a gynhyrchwyd gan Reoleiddwyr y Cyngor ar gael oddi ar eu gwefannau unigol, fel a ganlyn:

Swyddfa Archwilio Cymru: www.wao.gov.uk

Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru: <http://wales.gov.uk/cssiwsite/newcssiw/?skip=1&lang=cy>

Estyn: www.estyn.gov.uk

Os nad ydych yn gallu cysylltu â'r rhyngwyd, neu pe baech yn dymuno cael dogfen sydd heb ei rhestru uchod, yna cysylltwch â'r Cyngor drwy'r manylion cyswllt a nodir ar dop y dudalen hon os gwelwch yn dda.